

# Sut i drefnu sesiynau chwarae'r tu allan ar dy stryd

*Fersiwn o ganllaw Playing Out ar gyfer trigolion yng Nghymru*

## Chwarae stryd

Mae Chwarae Cymru'n cefnogi mentrau sy'n adennill y strydoedd a chymdogaethau er mwyn i blant a phlant yn eu harddegau allu crwydro a chwarae.

I'r mwyafrif o blant, bu gostyngiad yn y defnydd o strydoedd ac ardaloedd awyr agored ar gyfer chwarae ger eu cartrefi. Mae rhieni'n dweud wrthym eu bod yn bryderus ynghylch y cyfuniad o fwy o gerbydau ar y ffyrdd a chyflymder traffig sy'n golygu eu bod yn atal eu plant rhag chwarae'r tu allan.

Rydym wedi gweithio gyda Playing Out – mudiad gaiff ei arwain gan rieni a thrigolion sy'n gweithio i hyrwyddo chwarae stryd – i gynhyrchu deunyddiau i gefnogi rhieni i drefnu sesiynau chwarae ar eu stryd.

## Y model Playing Out

Mae digwyddiad chwarae'r tu allan yn sesiwn chwarae gaiff ei harwain gan gymdogion ar gyfer cymdogion, fydd ond yn cael ei gyhoeddi mewn strydoedd cyfagos. Caiff stryd breswyl ei chau i draffig er mwyn sicrhau diogelwch a rhyddid symudiad ar gyfer cyfranogwyr, gyda stiwardiaid gwirfoddol ger pob lleoliad ble mae'r ffordd wedi ei chau er mwyn dargyfeirio'r traffig ac i sicrhau tawelwch meddwl i rieni.

Bydd rhieni a gofalwyr yn gyfrifol am eu plant eu hunain. Bydd y pwyslais ar chwarae rhydd, di-strwythur ac fel arfer bydd pobl yn dod â'u teganau eu hunain allan fel rhaffau sgipio, beics a sgwteri. Yn syml iawn, rhoddir lle a chaniatâd i blant chwarae yn y stryd, tra caiff yr oedolion gyfle i gwrdd a dod i adnabod eu cymdogion yn well a mwynhau stryd di-geir.

# www.playingout.net

Mae Playing Out yn fudiad gaiff ei arwain gan rieni a thrigolion leded y DU sy'n adfer rhyddid plant i chwarae allan ar y strydoedd ac yn y mannau ble maent yn byw er budd eu hiechyd, eu hapusrwydd a'u hymdeimlad o berthyn. Yn ogystal â darparu cyngor a hyfforddiant i awdurdodau lleol a mudiadau cymunedol, mae Playing Out yn cefnogi trigolion i weithredu ar eu strydoedd eu hunain a thu hwnt.

# www.chwaraecymru.org.uk

Chwarae Cymru yw'r mudiad cenedlaethol dros chwarae plant, elusen annibynnol a gefnogir gan Lywodraeth Cymru i ddiogelu hawl plant i chwarae ac i gynnig cyngor ac arweiniad ar faterion sy'n ymwneud â chwarae.

*Plentyndod Chwareus* – gwefan gan Chwarae Cymru i helpu rhieni a grwpiau cymunedol roi cyfleoedd da i blant chwarae gartref ac allan yn eu cymdogaeth – www.plentyndodchwareus.cymru

# Cynnwys


**Cyflwyniad** **3**
Croeso 3
Beth yw 'chwarae'r tu allan'? 3
Pam ddylwn i ei wneud? 3
Faint fydd hyn yn ei gymryd? 3
Cyn cychwyn

**Cam 1. Siarad gyda chymdogion a dewis dyddiad** **4**
Y cyfarfod cyntaf 4
Rhannu'r syniad o chwarae'r tu allan 4
Dewis dyddiadau 4
Rolau a chyfrifoldebau 5

**Cam 2. Derbyn caniatâd a chefnogaeth** **6**
Gwneud cais i gau'r ffordd 6
Recriwtio stiwardiaid a gwirfoddolwyr eraill 6
Am fod yn drefnydd ar dy stryd dy hun 6
Gwrthwynebiadau a phryderon 7
Cefnogaeth bellach 7
Nodyn am yswiriant ac atebolrwydd 7
Asesu risg 7

**Cam 3. Dweud wrth bawb a pharatoi** **8**
Cyhoeddusrwydd 8
Arwyddion a chonau 8
Sicrhau cefnogaeth yr heddlu lleol 8
Pethau i'w cael wrth law ar y dydd 8
Teganau, gemau ac offer 9
Beth os fydd hi'n glawio? 9
Dogfennu 9

**Cam 4. Chwarae'r tu allan** **10**
Beth i'w ddisgwyl ar y dydd 10
Briffio'r stiwardiaid 10
Cau'r ffordd 10
Delio gyda cheir 10
Gyrwyr blin 11
Cael amser da wrth reoli'r sesiwn 11
Clirio ac ail-agor y ffordd 11
Wedi'r digwyddiad 12
Ti a dyfodol chwarae'r tu allan 12

**Rhestr wirio chwarae'r tu allan** **13**
**Pryderon cyffredin am chwarae'r tu allan** **16**
**10 rheswm da dros chwarae ar y stryd** **20**
**Cwestiynau cyffredin** **21**
**Pethau rhwydd a didrafferth** **31**
**Templed llythyr ymgynghori** **33**

# Cyflwyniad

## Croeso

Mae hwn yn ganllaw gam bob yn gam ar gyfer trefnu sesiynau 'chwarae'r tu allan' neu chwarae ar y stryd, yn seiliedig ar brofiad rhieni a thrigolion ledled y DU.

Dylai'r canllaw hwn, ynghyd â'r ffilmiau '4 steps films' ar wefan Playing Out gwmpasu'r hyn fydd angen iti ei wybod, ond os oes gennyt unrhyw gwestiynau, cysyllta gyda Playing Out neu Chwarae Cymru.

Yn ogystal, mae llawer o adnoddau defnyddiol, fel templedi llythyrau, y galli eu lawrlwytho oddi ar wefannau Playing Out a Chwarae Cymru.

## Beth yw 'chwarae'r tu allan'?

Ym mis Mehefin 2009, dyfeisiodd dwy gymdoges o Fryste, Alice Ferguson ac Amy Rose, y syniad o gau ffordd am gyfnod byr, wedi ei drefnu gan drigolion, er mwyn caniatáu i blant chwarae'r tu allan yn rhydd ar eu stryd eu hunain ac er mwyn i gymdogion gwrdd â'i gilydd. Fe alwon nhw'r syniad yma'n 'chwarae'r tu allan' – mae hefyd wedi ei alw'n 'chwarae ar y stryd' ac yn 'strydoedd chwarae'. Mae'r syniad wedi lledaenu, gan drawsnewid cannoedd o gymunedau ar strydoedd ar draws y DU.

Prif nodweddion y model 'chwarae'r tu allan' yw:

- Wedi eu trefnu gan drigolion ar eu stryd eu hunain
- Chwarae rhydd – nid gweithgareddau wedi eu trefnu
- Cau ffyrdd dros dro
- Sesiynau byr, rheolaidd
- Catalydd ar gyfer newid.

## Pam ddylwn i ei wneud?

Mae hon yn ffordd ddiogel, syml i adael i dy blant ac eraill ar y stryd chwarae'r tu allan gyda'i gilydd, a hynny'n rheolaidd. Rydym yn gwybod, trwy brofiad personol ac ymchwil academaidd, bod ganddo lawer o fuddiannau, yn cynnwys:

- Mae'r plant yn gorfforol fywiog (hyd at bum gwaith yn fwy na'r arfer)
- Mae plant yn gwneud ffrindiau ar y stryd
- Mae plant yn ennill sgiliau ac annibyniaeth
- Mae cymdogion yn cwrdd ac yn dod i adnabod ei gilydd
- Mae dy stryd yn teimlo'n fwy diogel a chyfeillgar
- Rwyt yn ennill hyder trwy weithredu i newid pethau.

Ac, wrth gwrs, mae'n llawer o hwyl. Ond mae 'chwarae'r tu allan' hefyd yn rhan o newid pethau mewn ffordd ddyfnach, tymor-hirach. Mae gweld y stryd yn llawn plant yn rymus a gall wir ddechrau newid y modd y mae pobl yn meddwl am eu hawl i chwarae'r tu allan mewn strydoedd a gofodau cyhoeddus. Trwy weithredu fel hyn, rwyt yn rhan o ymgyrch llawr gwlad sydd ar gynnydd tuag at weld plant yn adennill eu rhyddid i chwarae'r tu allan bob dydd.

## Faint fydd hyn yn ei gymryd?

Byddi angen tipyn o amser ac egni. Mae'r broses gyfan, o gael y syniad i gynnal y sesiwn cyntaf, yn cymryd dau i dri mis. Ond paid â gadael i hynny newid dy feddwl – gellir rhannu'r gwaith a chaiff llawer o'r amser yna ei dreulio'n aros am ganiatâd oddi wrth y cyngor.

## Cyn cychwyn

Mae gwneud dy stryd yn le i chwarae'n gam arloesol ac mae'n helpu i fod â rhywfaint o gefnogaeth. Os wyt ti'n adnabod rhai o'r cymdogion eisoes, mae'n werth siarad gyda nhw cyn cyflwyno'r syniad i'r stryd gyfan.



# Cam 1. Siarad gyda chymdogion a dewis dyddiad

## Y cyfarfod cyntaf

Gwahodd dy gymdogion i ddod i gyfarfod anffurfiol i drafod y syniad. Bydd hyn yn sicrhau bod pawb yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys o'r cychwyn cyntaf ac y gallan nhw ofyn cwestiynau a lleisio unrhyw bryderon.

Dewis leoliad, amser a dyddiad fydd yn gyfleus ac yn gyfforddus ar gyfer pawb. Byddai tafarn leol, caffi, lolfa rhywun neu hyd yn oed allan ar y stryd, i gyd yn gweithio'n dda. Galli addasu'r gwahoddiad i gyfarfod oddi ar wefannau Chwarae Cymru a siarad yn uniongyrchol gyda phobl. Cyn y cyfarfod, gwiria'r broses ymgeisio yn dy ardal di gan fod gan wahanol gynghorau wahanol weithdrefnau – cei hyd i fwy o wybodaeth ar wefan Playing Out neu galli alw'r cyngor yn uniongyrchol.



Bwriad y cyfarfod cyntaf hwn yw:

- Rhannu syniad chwarae'r tu allan a sbarduno brwdfrydedd amdano
- Trafod unrhyw gwestiynau neu bryderon.

Ac os oes digon o ddiddordeb:

- Dewis dyddiadau ac amserau
- Cytuno pwy fydd yn gwneud beth.

## Rhannu'r syniad o chwarae'r tu allan

Prif nod y cyfarfod hwn fydd cynnig a thrafod y syniad. Efallai yr hoffet ddangos y fideo oddi ar hafan gwefan Playing Out neu ofyn i bobl rannu eu hatgofion nhw o chwarae'r tu allan er mwyn torri'r iâ. Mae'n siŵr y bydd hyn yn ysgogi trafodaethau bywiog am chwarae ar y stryd a materion cysylltiedig eraill. Efallai y bydd gan ambell un gwestiynau neu bryderon fydd angen gwrandawiad. Gweler Pryderon cyffredin am chwarae'r tu allan ar dudalen 17.

Os nad oes digon o ddiddordeb, efallai y byddai'n well gadael y mater am y tro a cheisio eto yn y dyfodol. Os na chei di unrhyw fath o ymateb, edrych ar Pethau rhwydd a didrafferth ar dudalen 31. Nid ti yw'r unig un sydd eisiau i dy blant fwynhau ymdeimlad o ryddid ac annibyniaeth a galli ddal i geisio newid pethau. Mae rhai strydoedd wedi sylwi bod cynnal parti stryd neu Y Cinio Mawr yn fan cychwyn da, neu efallai bod gennyt dy syniadau dy hun.

## Dewis dyddiadau

Os oes gan bobl ddiddordeb gwneud iddo ddigwydd, gallwch fynd ati i ddewis dyddiadau. Bydd ceisiadau i gau ffyrdd yn cymryd tua phedair i chwe wythnos i'w prosesu, felly cofia ystyried hyn. Meddylia pa mor aml, am faint o amser a faint o'r ffordd yr hoffet ei gau.



Paid â bod yn rhy uchelgeisiol. Os oes gan bobl bryderon neu wrthwynebiadau, efallai y byddai'n syniad da trefnu un sesiwn arbennig i asesu ymateb pobl.

Efallai yr hoffet ddechrau trwy gynnal sesiynau ar ôl ysgol, er mwyn hybu'r syniad ei fod yn rhan normal o fywyd bob dydd, ond mae ar y penwythnos yn iawn hefyd – beth bynnag sy'n gweddu i ti a dy gymdogion.

## Rolau a chyfrifoldebau

Rhannwch y gwaith. Trafodwch y rolau isod a gweld os ydyn nhw'n apelio at unrhyw un. Dylet anelu i gael cymaint o bobl â phosibl i ymrwymo i dy helpu, rhag iti orfod gwneud y gwaith i gyd ar dy ben dy hun. Mae'n syniad da hefyd i gyfnewid a / neu rannu rôl y prif drefnydd.

**Trefnydd / Trefnwyr**: Prif yrrwr a chydlynydd y sesiynau chwarae'r tu allan – ti, yn fwy na thebyg. Mae'n bosibl y bydd hyn yn swnio'n weddol frawychus ond y cyfan fyddi di ei angen yw ymrwymiad a brwdfrydedd.

**Stiwardiaid**: Cyfrifol am wneud y gofod yn ddiogel – cwbl allweddol. Ar y mwyafrif o strydoedd, bydd angen dau oedolyn dibynadwy ger pob man 'mynediad i gerbydau', felly gorau po fwyaf o stiwardiaid y gellir eu recriwtio.

**Cynorthwywyr**: Yn bennaf ar gyfer helpu gyda'r cyhoeddusrwydd a mân-dasgau eraill, fel dylunio taflenni a chwilio am arwyddion ac adnoddau eraill a'u casglu.

# Cam 2. Derbyn caniatâd a chefnogaeth

## Gwneud cais i gau'r ffordd

Fe gychwynnodd y prosiect Playing Out ym Mryste, gan ddefnyddio proses 'parti stryd' y cyngor i gynnal sesiynau untro. Yna, mewn ymateb i'r galw oddi wrth drigolion, cyflwynodd y cyngor weithdrefn arloesol y 'Gorchymyn Stryd Chwarae Dros Dro' (Temporary Play Street Order neu TPSO), fyddai'n caniatáu i breswylwyr ymgeisio am flwyddyn gyfan o sesiynau wythnosol neu fisol.

Mae nifer o gynghorau eraill wedi dilyn eu hesiampl – gweler y cyfeirlyfr awdurdodau lleol i ddysgu beth yw'r broses yn dy ardal di. Os cei drafferth, darllen y Cwestiynau cyffredin ar dudalen 22 neu cysyllta gyda Playing Out neu Chwarae Cymru am gyngor. Byddai cael cynghorydd lleol i dy gefnogi yn ddechrau da.

Yn ogystal â llenwi ffurflen, bydd angen iti ymgynghori'n ffurfiol gyda phawb ar y stryd. Ble fo'r cyngor yn darparu templed o lythyr, byddem yn dy gynghori i anfon llythyr personol cyfeillgar gyda hwn yn egluro pam dy fod am gynnal sesiynau chwarae'r tu allan ac yn sicrhau pobl y byddan nhw'n dal i allu cael mynediad i'r stryd yn eu car. Efallai y bydd rhai cynghorau'n gofyn iti gasglu llofnodion i gefnogi'r syniad, allai fod yn gyfle i siarad gyda phobl wyneb-yn-wyneb.

## Recriwtio stiwardiaid a gwirfoddolwyr eraill

Fydd sesiynau chwarae'r tu allan ond yn bosibl gyda chymorth gwirfoddolwyr. Mae gofyn i gymdogion ddosbarthu taflenni a gwneud jobsys eraill yn ffordd dda o gynnwys pobl eraill, yn enwedig rai sydd heb blant ifanc.

Bydd angen o leiaf ddau stiward ar gyfer pob pwynt mynediad i gerbydau trwy gydol y sesiwn (un i aros wrth y fynedfa a'r llall i gerdded o flaen y ceir). Rydym wedi dysgu ei bod hi'n well gofyn yn uniongyrchol i bobl, yn hytrach na dim ond anfon cais cyffredinol allan. Efallai yr hoffet argraffu'r daflen cofrestru stiwardiaid sydd ar wefannau Playing Out a Chwarae Cymru a chael pobl i ymrwymo'n ysgrifenedig.

Mae angen i stiwardiaid fod yn ddibynadwy a hyderus, yn enwedig ar strydoedd sydd â lefel uchel o draffig fel arfer. Eu lleoliad nhw fydd y man ble mae unrhyw berygl neu anawsterau posibl yn fwyaf tebygol o godi, gan mai dyma ble fydd pobl a cherbydau'n dod wyneb-yn-wyneb.

Dylai stiwardiaid sydd â phlant ifanc iawn sicrhau bod rhywun arall yn fodlon bod yn gyfrifol amdanyn nhw. Ceir mwy o fanylion am friffio stiwardiaid yng ngham 4 y canllaw hwn.

### Am fod yn drefnydd ar dy stryd dy hun

*'Rydw i wedi bod yn pwysleisio pwysigrwydd chwarae wrth fy nghymdogion a fy ffrindiau, er bod cau'r stryd yn ffordd wych i ennill momentwm a lleihau pryderon, mae angen i'r syniad gael ei wreiddio ym meddyliau pobl y tu allan i adegau cau'r stryd yn swyddogol. Roedd fy mechgyn yn cael eu denu i fynd allan yn amlach pan oedd plant eraill i'w gweld allan hefyd, felly er ein bod yn chwarae'r tu allan ar ein pen ein hunain ar y cychwyn (y tu allan i adegau cau'r ffordd yn swyddogol), mae'r syniad yn tyfu'n araf bach a, diolch byth, mae mwy o blant yn dechrau dod allan o'u gerddi ac oddi wrth sgriniau ac yn dod allan i chwarae!'*

Toni, un o drigolion Caerdydd

'Dyw hi ddim yn anarferol i bobl deimlo'n anghyfforddus neu fod â theimladau cymysg am dy rôl. Rwyt ti'n herio'r sefyllfa bresennol. Ble fo modd, ceisia rannu'r cyfrifoldeb a'r teimlad o gyflawniad ddaw yn sgîl hynny.

Cofia mai ymdrech gymunedol fydd hon, felly ceisia greu cyfleoedd i bobl gyfrannu eu syniadau eu hunain, a'u sgiliau a'u cryfderau hefyd. Bydd y rhan fwyaf o bobl yn gwerthfawrogi a chefnogi'r hyn yr wyt yn ceisio ei wneud.



## Gwrthwynebiadau a phryderon

Yn anffodus, nid yw pawb yn hoffi'r syniad o blant yn chwarae ar y stryd. Y polisi gorau, yn gyffredinol, yw osgoi gwrthdaro a cheisio clywed a deall eu safbwyntiau. Efallai eu bod wedi anghofio am eu plentyndod eu hunain, neu efallai bod ganddyn nhw bryderon dilys. Edrycha trwy'r Pryderon cyffredin ar dudalen 17 a chysyllta gyda Playing Out neu Chwarae Cymru os fyddi angen cyngor neu gefnogaeth.

## Cefnogaeth bellach

Cofia fod rhwydwaith Playing Out o drigolion gweithgar ar gael ar gyfer cyngor a chefnogaeth gyfeillgar. Galli gysylltu gyda'r rheini yn dy ardal leol trwy'r map ar wefan Playing Out, neu ymuna â grŵp Facebook cenedlaethol Playing Out. Mae gan rai ardaloedd grwpiau Playing Out lleol – neu fe allet ti sefydlu un dy hun. Cysyllta gyda Playing Out neu Chwarae Cymru i ddysgu mwy am sefydlu grŵp neu ddod yn 'ysgogydd' lleol, a helpu i ledaenu'r syniad y tu hwnt i dy stryd di.

## Nodyn am yswiriant ac atebolrwydd

Gweler gwefan Playing Out am gyngor ar yswiriant. Fydd y mwyafrif o strydoedd ddim yn prynu yswiriant, ac nid yw'r mwyafrif o gynghorau'n mynnu hynny. Y ffordd orau, yn gyffredinol, i atal cael dy ddal yn atebol am rywbeth aiff o'i le yw gwneud yn siŵr dy fod yn gwneud popeth mewn ffordd gyfrifol, paratoi'n drylwyr ac annog pawb i ddangos parch tuag at eiddo a phobl eraill. Ceisia greu ymdeimlad o gyfrifoldeb ar y cyd am sicrhau bod y sesiynau'n ddiogel.

## Asesu risg

Mae'n werth cynnal asesiad risg a'r hyn y mae'n ei olygu yw rhestru unrhyw risgiau posibl (er enghraifft, ceir yn gadael y stryd yn ddirybudd) a phenderfynu beth alli di ei wneud i leihau'r risg yma. Unwaith iti wneud hynny, gan gofio nad oes y fath beth ac amgylchedd 'di-risg', mae'n syniad da i bwyso a mesur y risg cyffredinol yn erbyn y buddiannau posibl o fwrw ymlaen â'r syniad. Mae templed ar wefannau Chwarae Cymru y gallet ei ddefnyddio, ond mae pob stryd yn wahanol felly bydd angen iti ei addasu neu greu dy un dy hun.

# Cam 3. Dweud wrth bawb a pharatoi

## Cyhoeddusrwydd

Mae'n bosibl mai dylunio a dosbarthu llythyrau, posteri a thaflenni yw'r prif dasgau wrth drefnu sesiynau chwarae'r tu allan. Y newydd da yw bod y tasgau yma'n hawdd i'w rhannu gydag eraill. Fel arfer bydd 'dylunydd o fri' ar y stryd ac mae'r plant wrth eu bodd gyda'r gwaith o roi taflenni trwy'r drysau. Byddem yn argymell cadw'r cyhoeddusrwydd o fewn dy stryd dy hun ac efallai un neu ddwy stryd gyfagos, er mwyn osgoi ei hyrwyddo fel digwyddiad cyhoeddus.

Nawr, mae'n amser hyrwyddo'r sesiwn cyntaf gyda phawb a weli ar y stryd. Mae'n bosibl y cei dy synnu sut y bydd wynebau pobl yn goleuo wrth iti sôn am chwarae ar y stryd. Mae'n ffordd wych i gychwyn sgwrs – mae pobl (o oed penodol) yn mwynhau rhannu eu hatgofion ac mae'n eu hatgoffa rhan mor bwysig oedd hyn o'u plentyndod.

Gofyn i bobl osod poster yn eu ffenest gwpwl o wythnosau cyn y sesiwn i ddangos eu bod yn cefnogi'r syniad. Gallet hefyd anfon e-byst a negeseuon testun at dy gymdogion yn arwain at y diwrnod.

Mae croeso iti ddefnyddio ac addasu'r templedi o wefannau Playing Out neu Chwarae Cymru, neu greu dy rai dy hun. Mae'n bwysig nodi'n gwbl glir ar bob darn o gyhoeddusrwydd y bydd rhieni'n gyfrifol am eu plant eu hunain yn ystod y sesiynau ac y bydd ceir ond yn cael dod i mewn ac allan wedi eu hebrwng gan stiward, a hynny'n araf iawn.

## Arwyddion a chonau

Gwiria gyda'r cyngor lleol am y gofynion o ran arwyddion 'Ffordd ar Gau' ac unrhyw arwyddion eraill. Bydd rhai cynghorau'n barod i ddarparu arwyddion, tra y bydd eraill yn gofyn iti drefnu dy rai dy hun. Bydd angen iti hefyd feddwl am gau lled cyfan y ffordd, gan ddefnyddio conau a rhwystrau. Mae'n bwysig sicrhau bod beth bynnag y byddi'n ei osod yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol y cyngor ac y bydd yn atal ceir a beiciau, yn gwbl glir ac effeithiol, rhag dod trwodd heb ganiatâd.

## Pethau i'w cael wrth law ar y dydd

Er bod rhieni'n gyfrifol am eu plant eu hunain ac nad yw'r sesiwn yn 'ddigwyddiad', mae'n werth bod â blwch cymorth cyntaf o fewn cyrraedd. Mae pethau defnyddiol eraill yn cynnwys fflasgiau, ambarelau a chadeiriau (ar gyfer y stiwardiaid). Efallai yr hoffet hefyd gael rhywfaint o daflenni Playing Out i'w dosbarthu i yrwyr neu bobl chwilfrydig sy'n mynd heibio.

### Sicrhau cefnogaeth yr heddlu lleol

Bydd lleiafrif bychan o yrwyr ceir (a hyd yn oed rai beicwyr) yn ymateb yn ddig, yn ymosodol neu hyd yn oed yn beryglus i rywun yn gofyn iddyn nhw gymryd llwybr gwahanol neu yrru'n araf iawn. Am y rheswm hwn, dylet ystyried gwahodd dy Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu lleol (PCSO) neu Reolwr y Rownd leol i ddod i dy sesiynau.

Fe ddylen nhw weld hyn fel cyfle da i ymgysylltu â'r gymuned ac mae'n anfon neges i yrwyr bod cau'r ffordd yn ddigwyddiad cyfreithlon y gellir ei orfodi. Os cewch unrhyw drafferth gyda gyrru peryglus neu unrhyw ymddygiad annerbyniol ar y dydd, cofiwch gasglu cymaint â phosibl o fanylion a chysylltu gyda 101 i adrodd am y mater ar unwaith.

## Teganau, gemau ac offer

Un o nodau chwarae'r tu allan yw galluogi chwarae rhydd wedi ei arwain gan y plant, felly fydd dim angen iti brynu na threfnu unrhyw beth arbennig. Mae gwerth gwirioneddol i chwarae rhydd gan ei fod yn annog dyfeisgarwch a chreadigedd. Yn aml bydd pobl yn dod â sialc allan, a rhaffau sgipio hir, pyllau padlo, beics, sgwteri, ystudfachau (*stilts*), cylchoedd, swigod a mwy. Oni bai dy fod yn sylwi ar rywbeth sy'n creu risg diangen (er enghraifft peli criced caled) ble y bydd angen iti efallai ymyrryd yn dawel neu awgrymu syniad amgen fel peli meddal, mae'n debyg y galli ymlacio.

## Beth os fydd hi'n glawio?

Mae llawer o strydoedd wedi gyrru ymlaen a chwarae'r tu allan yn y glaw, yr eira ac eirlaw. Mae'n ymddangos bod hyn, yn gyffredinol, yn ychwanegu at yr hwyl o safbwynt y plant, felly'r cwestiwn pennaf yw os ydi'r oedolion yn hapus i sefyll allan yn y tywydd ai peidio. Os byddwch yn penderfynu dal ati mewn tywydd gwael, cofia fod yn ymwybodol o unrhyw beryglon ychwanegol, fel y posibilrwydd o feiciau'n llithro. A gorffennwch gyda phaned gynnes braf.

## Dogfennu

Meddylia sut, ac os, wyt ti am gofnodi eich sesiwn cyntaf. Mae ffotograffau'n wych ar gyfer rhannu'r syniad trwy gylchlythyrau, hysbysfyrddau neu'r cyfryngau cymdeithasol yn lleol. Gallet hefyd ffilmio dy gymdogion yn rhannu atgofion o'u plentyndod eu hunain. Cofia bob amser dderbyn caniatâd (a chaniatâd rhieni ar gyfer plant). Cofia hefyd rannu unrhyw ddogfennau neu adborth gyda Chwarae Cymru a Playing Out, os wyt wedi derbyn caniatâd i wneud hynny – bydd hyn i gyd yn helpu i annog eraill ac arddangos gwir fuddiannau chwarae stryd.



# Cam 4. Chwarae'r tu allan

## Beth i'w ddisgwyl ar y dydd

O'r diwedd, mae'r diwrnod wedi gwawrio. Efallai y byddi'n teimlo'n gyffrous, yn flinedig, neu braidd yn nerfus. Mae hyn i gyd yn normal. Byddi'n falch pan fydd popeth wedi cychwyn. Rwyt wedi gwneud popeth y galli i roi gwybod i bobl am y sesiwn, felly alli di ond aros a gweld pwy ddaw allan i chwarae.

## Briffio'r stiwardiaid

Trefna i gwrdd a briffio'r stiwardiaid tua 15 munud cyn i'r sesiwn gychwyn. Rydym yn cymryd yr elfen yma o ddifrif oherwydd mae angen i'r stiwardiaid fod yn effro i geir ac yn gwbl eglur am eu rôl, sef:

- Cadw'r plant o fewn y rhan o'r stryd sydd wedi ei chau
- Dargyfeirio'r traffig 'trwodd' mewn modd cwrtais
- Hebrwng trigolion i mewn ac allan o'r stryd yn ddiogel.

Gofyn iddyn nhw ddarllen y daflen briffio stiwardiaid, neu fe allet ti ei darllen yn uchel i bawb. Galli fod yn gymharol ffurfiol gyda'r cam hwn fel nad oes unrhyw reswm i bobl ddrysu. Os bydd dwy shifft o stiwardiaid, bydd y shifft gyntaf yn gyfrifol am friffio'r ail shifft.

Bydd y stiwardiaid yn gwisgo gwasgod lachar, a bydd gan bob un 'ruban' gyda chwiban arni, taflen briffio stiwardiaid a rhestr o rifau ffôn cyswllt y trefnydd a'r cyngor. Dylent sefyll yn ddiogel y tu ôl i'r man ble mae'r ffordd wedi ei chau (h.y. ddim yn y rhan 'fyw' o'r ffordd) ond yng ngolwg traffig sy'n dod i'w cwrdd, yr ardal sydd wedi ei chau a'r stiwardiaid eraill.

Dylai'r trefnydd a'r stiwardiaid gytuno pwy fydd yn cadw llygad am yrwyr sydd eisiau gadael y stryd a sut rydych am reoli hyn. Ar hyd ffordd hir, mae'n debyg y bydd angen 'stiward crwydrol' yn ogystal â'r stiwardiaid ar bob pen i'r stryd.

## Cau'r ffordd

Unwaith iddyn nhw gael eu briffio, dylai'r stiwardiaid fynd i bob pen o'r stryd a gosod yr arwyddion a'r conau neu'r rhwystrau yn eu lle ar yr un pryd ac mor ddiogel â bo modd. Unwaith eu bod yn eu lle, ddylai'r stiwardiaid ddim gadael eu lleoliad penodol ar wahân i pan fydd angen hebrwng ceir i mewn neu allan. Gwnewch yn siŵr bod gennych arwydd cwbl glir ar gyfer pan fo'r stryd wedi ei chau'n llwyr ac yn ddiogel ar gyfer chwarae, er enghraifft tri chwythiad ar y chwiban.

## Delio gyda cheir

Gyda gyrwyr, dylai pawb geisio bod yn gyfeillgar ac yn glir. Wedi i'r ffordd gael ei chau, os bydd car am fynd trwodd, fydd hynny ddim yn bosibl, gan fod y ffordd wedi ei chau'n gyfreithlon. Dylai pob stiward wybod y cyfeiriad gwahanol gorau ar gyfer dargyfeirio traffig trwodd. Ar y llaw arall, os bydd un o'r trigolion neu ymwelydd am symud ei gar i mewn neu allan o'r adran o'r stryd sydd ar gau, dyma fydd y drefn:

- Dylai'r stiward wneud yn siŵr bod ganddynt gytundeb clir gyda'r gyrrwr y bydd yn aros i gael ei hebrwng i mewn. Fyddwch chi ond yn gallu caniatáu mynediad os ydych wedi sicrhau'r cytundeb yma.
- Rhybuddiwch bawb mewn llais clir, uchel (neu trwy chwythu'r chwiban) bod car yn dod i mewn i'r stryd ac arhoswch i'r ffordd gael ei chlirio o blant ac unrhyw rwystrau.
- Daliwch lygad y gyrrwr a'u hatgoffa i yrru y tu ôl ichi fel malwen.
- Os, neu pryd y byddwch yn teimlo ei bod yn ddiogel, dylai un stiward adael i'r car fynd trwy'r rhwystr ac yna'i osod yn ei ôl yn syth tra bô'r stiward arall yn cerdded o flaen y cerbyd at le parcio. Unwaith bod yr injan wedi ei diffodd, galwch 'Diogel i chwarae!' (neu chwythwch y chwiban).
- Diolchwch i'r gyrrwr cyn dychwelyd at eich safle wrth y rhwystr.

Cofiwch ddelio gydag un car ar y tro. Bydd angen i'r stiward sy'n aros wrth y man cau'r ffordd ddal unrhyw gerbyd arall sydd am gael mynediad i'r stryd yn ei ôl.

Os yw gyrrwr am adael y stryd, siaradwch gyda nhw a chytuno i ba gyfeiriad y byddan nhw'n mynd allan. Yna, dilynwch y drefn uchod ond am yn ôl.

## Gyrwyr blin

Mae hwn yn achos risg prin ond difrifol, felly cofiwch fod yn barod. Os bydd gyrrwr yn ymddwyn yn anodd neu'n herio eich awdurdod, bydd angen i chi a'r stiwardiaid ddefnyddio eich synnwyr cyffredin ar y pryd a datrys pethau'r gorau gallwch. Dylech osgoi dadleuon a gwrthdaro a blaenoriaethu diogelwch y cyfranogwyr i gyd. Cofiwch y gall pobl fod â phob math o resymau am eu hymateb a cheisiwch gadw eich pen, a bod yn gwrtais a phendant.

Pwysleisiwch statws cyfreithiol cau'r ffordd ac mai dim ond dros dro y bydd ar gau. Os bydd gyrrwr yn dadlau, dylai eich cyd-stiward rybuddio'r trefnydd ac unrhyw rieni plant gerllaw yn dawel bach er mwyn sicrhau diogelwch y plant. Bydd taflen briffio'r stiwardiaid yn cynnwys rhif cyswllt y cyngor, a gallwch gynnig hwn i'r gyrrwr os yw am siarad gyda swyddog. Mewn sefyllfa eithafol os bydd gyrrwr yn ymddwyn yn beryglus, galwch 999 (neu 101 os yw'r perygl uniongyrchol wedi mynd heibio).

## Cael amser da wrth reoli'r sesiwn

Y trefnyddion, mewn gwirionedd, yw'r gwesteiwyr. Mae pobl yn gyfrifol am eu hunain ond eto, rwyt ti'n siŵr o deimlo rhywfaint o gyfrifoldeb am y digwyddiad yn gyffredinol. Felly, bydd angen iti daro cydbwysedd. Mae gennyt bob hawl i roi gwybod i blentyn neu riant os wyt ti'n credu eu bod nhw'n ymddwyn mewn modd peryglus neu aflonyddol.

Yn yr un modd, byddi am ymlacio a mwynhau'r sesiwn gyda dy gymdogion. Wrth gwrs mae croeso iti wneud hynny, ond cadw lygad, yn enwedig ar y stiwardiaid.

Defnyddia dy synnwyr cyffredin – mae'n annhebyg y bydd angen iti ymyrryd gydag unrhyw beth ar wahân i ambell stiward fydd ddim yn troi i fyny neu, ar y gwaethaf, yrrwr annymunol.

Cadw lygad hefyd am gymdogion hŷn neu bobl o strydoedd eraill sydd wedi dod i gael golwg a mwynhau'r prynhawn. Fe fyddan nhw'n hapus iti gyflwyno dy hun a chael sgwrs. Mae'n bosibl mai rhai o'r sgyrsiau hyn fydd elfen fwyaf pleserus y sesiynau.

## Clirio ac ailagor y ffordd

Tua 10 munud cyn ailagor y ffordd dylai un stiward o bob pen o'r ffordd gerdded i fyny'r stryd at ei gilydd, gan ddweud wrth bawb y bydd y ffordd yn ailagor mewn ychydig – gan ofyn i bawb ddechrau clirio pethau. Codwch unrhyw deganau, sialc ac yn y blaen wrth ichi fynd ac annog pawb arall i wneud yr un peth.






Unwaith i bopeth gael ei glirio o'r ffordd, dylai'r ddau stiward fynd i fyny ac i lawr y ffordd eto'n galw allan, *'Ar y palmant, os gwelwch yn dda, rydyn ni'n ailagor y ffordd'*. Defnyddiwch chwibanau i ddal sylw pawb, a llais uchel, clir – ond ceisiwch ddal i fod yn gynnes a chyfeillgar. Dyma'r amser hefyd i atgoffa rhieni i wneud yn siŵr bod eu plant yn deall y gwahaniaeth rhwng sesiwn chwarae'r tu allan ac amodau arferol.

Mae'n bosibl y bydd angen iti fod yn weddol gadarn er mwyn sicrhau bod rhieni'n sylweddoli efallai y bydd ceir yn dod trwodd yn gyflym ac mai eu cyfrifoldeb nhw fydd cadw eu plant yn ddiogel. Mae'n ddefnyddiol derbyn eu cytundeb llafar.

Unwaith eich bod yn siŵr bod pawb oddi ar y ffordd a bod gan rieni reolaeth dros blant bach, anelwch i agor y mannau ble mae'r ffordd wedi ei chau ar yr un pryd er mwyn osgoi gweld ceir yn cael eu dal yn y canol. Wedi tynnu'r arwyddion i lawr gall y stiwardiaid gwblhau un 'tro' terfynol o'r ffordd, a cherdded i lawr y ffordd o bob pen a chwrdd yn y canol, er mwyn gwneud yn gwbl siŵr bod pawb oddi ar y ffordd yn ddiogel cyn i'r traffig ddechrau dod trwodd. Os byddan nhw'n gwneud hyn, dylai'r stiwardiaid fod yn ymwybodol eu bod yn cerdded mewn 'ffordd agored' a chadw eu hunain yn ddiogel.

Os wyt ti'n teimlo bod dychweliad ceir yn anodd ei ddioddef, cofia bod yr hyn yr wyt wedi ei wneud yn gam cyntaf tuag at newid tymor-hirach mewn agweddau ynghylch ffyrdd a strydoedd. A dechreua feddwl am dy gam nesaf.

## Wedi'r digwyddiad

Nawr yw'r amser i eistedd yn ôl a mwynhau dy orchest. Mewn ychydig ddyddiau, anfon nodyn diolch at bawb fu'n rhan o'r sesiwn. Os oes modd, cofia gynnwys cwpwl o luniau o'r digwyddiad. Efallai yr hoffet gofnodi dy feddyliau a dy deimladau ar yr un pryd. Gallai'r rhain gynnwys syniadau sydd gennyt ar gyfer digwyddiadau neu weithgareddau i'r dyfodol ar gyfer dy stryd a dy gymuned.

Mae testun a lluniau yn rymus a byddant yn dy helpu i gyfathrebu dy syniadau wrth bobl eraill. Yn dilyn y digwyddiad, rydym yn dy annog i ddathlu eich gorchestion.

## Ti a dyfodol chwarae'r tu allan

Cofia gysylltu â Playing Out neu Chwarae Cymru gydag unrhyw gwestiynau neu bryderon sydd gennyt neu os byddi angen cefnogaeth ymarferol. Hefyd, rho wybod sut hwyl gei di'n defnyddio'r deunyddiau. Byddem yn gwerthfawrogi derbyn dy adborth a dymunwn y gorau iti gyda chwarae'r tu allan.

Hoffem glywed am dy brofiadau, unai trwy e-bost neu'r cyfryngau cymdeithasol. Bydd dy arsylwadau, syniadau, adborth, geirda, ffotograffau, atgofion am chwarae yn ein helpu i ehangu'r mudiad. Os wyt ti'n fodlon, cofia ychwanegu dy fanylion i fap ar-lein Playing Out er mwyn i bobl leol eraill gysylltu â thi am gyngor a chymorth cyfeillgar. Caiff dy negeseuon trydar, blogiau, e-byst, gwefan a sylwadau ar Facebook ac, wrth gwrs, dy sgyrsiau gyda dy gymdogion am chwarae'r tu allan, eu gwerthfawrogi'n fawr iawn a byddant yn mynd yn bell tuag at sbarduno chwarae stryd fel rhan arferol o fywyd bob dydd.

# Rhestr wirio chwarae'r tu allan

## Camau cyntaf (o leiaf ddau fis cyn y sesiwn chwarae'r tu allan cyntaf)

| | |
|---|---|
| | Siarad gyda dy gymdogion am y syniad i weld os byddai diddordeb efo nhw. Os felly: |
| | Dewis ddyddiad a lleoliad ar gyfer y cyfarfod cyntaf. |
| | Darllen am chwarae stryd ac am Playing Out. Mae tudalen 'Inspirations and Ideas' gwefan Playing Out yn fan cychwyn da. Cysyllta gyda dy gyngor lleol i ddysgu am y broses ymgeisio yn dy ardal. Gallet hefyd ddysgu beth arall sy'n mynd ymlaen yn dy ardal trwy ddefnyddio'r map ar www.playingout.net |
| | Rho wybod i Chwarae Cymru dy fod yn meddwl trefnu sesiynau chwarae'r tu allan. Fe weithiwn ni gyda Playing Out i wneud popeth y gallwn i dy gefnogi. Ymuna gyda grŵp Facebook Playing Out i gael mwy o syniadau ac ysbrydoliaeth. |

## 10-14 diwrnod cyn y cyfarfod cyntaf

| | |
|---|---|
| | Addasa ac argraffa'r Gwahoddiad i gyfarfod cymdogion. |
| | Dosbartha'r gwahoddiadau trwy ddrysau. |
| | Cynllunia ar gyfer y cyfarfod gan ddefnyddio'r canllaw hwn. |

## Yn y cyfarfod cyntaf

| | |
|---|---|
| | Siarad trwy'r syniad gyda dy gymdogion. |
| | Rhanna atgofion am chwarae'r tu allan, gobeithion, syniadau a phryderon. |
| | Asesa ddiddordeb a phennu dyddiad ar gyfer y sesiwn chwarae'r tu allan cyntaf (a sesiynau dilynol, os byddwch yn ymgeisio am nifer o ddyddiadau). |
| | Penderfyna pwy fydd yn gwneud beth (yn cynnwys pwy fydd yn gwneud y cais ffurfiol). |
| | Casgla fanylion cyswllt (defnyddia'r ffurflen stiwardiaid os yw hynny o help, neu agor restr ebostio). |

## Yn ystod yr wythnos wedi'r cyfarfod

| | |
|---|---|
| | Anfon e-bost at bawb ddaeth i'r cyfarfod i ddiolch iddyn nhw am fynychu, noda'n gryno unrhyw benderfyniadau a wnaethpwyd a rolau y cytunwyd arnynt a'r dyddiadau arfaethedig ar gyfer eich sesiynau. |

## Chwech i wyth wythnos cyn dy sesiwn chwarae'r tu allan cyntaf

| | |
|---|---|
| | Ymgeisia i'r cyngor lleol am hawl i gau'r ffordd / ffyrdd a gwneud yn siŵr dy fod yn dilyn unrhyw ofynion ar gyfer ymgynghori gyda dy gymdogion. |
| | Dechreua recriwtio stiwardiaid a gwirfoddolwyr. |
| | Ymateba i unrhyw wrthwynebiadau a phryderon sy'n codi o'r ymgynghoriad. Gweler Pryderon cyffredin neu cysyllta gyda Playing Out neu Chwarae Cymru os wyt ti angen help gyda hyn. |
| | Gwiria sut y cei wybod os bu'r cais yn llwyddiannus (bydd rhai cynghorau ond yn rhoi gwybod iti'r wythnos cynt). |

## Pythefnos cyn y sesiwn cyntaf

| | |
|---|---|
| | Dosbartha'r posteri i'r cymdogion i'w gosod yn eu ffenestri. |
| | Unwaith iti dderbyn cadarnhad oddi wrth dy gyngor, rho wybod i bawb bod y sesiwn yn digwydd a'u hatgoffa am y dyddiadau. Mae templed taflen cadarnhau ar gael ar wefannau Playing Out a Chwarae Cymru. |
| | Cadarnha'r stiwardiaid. |

## Wythnos cyn y sesiwn cyntaf

| | |
|---|---|
| | Gosoda Rybuddion Cau Ffordd y cyngor, ble fo angen. |
| | Gwna drefniadau ar gyfer yr arwyddion 'Ffordd ar Gau' ac unrhyw offer arall y byddi eu hangen ar gyfer y diwrnod – gwasgodau llachar ayyb. |
| | Argraffa gopïau o'r Papur Briffio Stiwardiaid (dau ar gyfer pob man ble mae'r ffordd wedi ei chau) a darllen hwn nifer o weithiau. |
| | Cwblha asesiad risg-budd. |

## Ar y diwrnod

| | |
|---|---|
| | Gwna'n siŵr bod popeth gennyt yn barod ar gyfer y diwrnod |
| | Briffia'r stiwardiaid, ar lafar, a gofyn iddyn nhw ddarllen y Papur Briffio Stiwardiaid. |
| | Cau'r ffordd (gan ddilyn y drefn yn y canllaw) a chwarae'r tu allan. |
| | Siarada gyda'r cymdogion, a chofia gasglu atgofion, ffilmio fideos a thynnu lluniau. |
| | Gwna'n siŵr bod pawb yn gwybod pan mae'r ffordd yn mynd yn ôl i 'normal' ac agor y ffordd yn ddiogel. |

## Yn y dyddiau neu'r wythnos wedi dy ddigwyddiad

| | |
|---|---|
| | Ebostia Playing Out neu Chwarae Cymru neu cofia ymweld â thudalen Facebook Playing Out i roi gwybod inni sut aeth y sesiwn. |
| | Cofia ddathlu eich llwyddiant gyda dy gymdogion, y plant, helpwyr, gwirfoddolwyr a stiwardiaid. Efallai y gallet eu gwahodd i edrych ar wefan a thudalen Facebook Playing Out neu rannu eu hadborth efo ti. |
| | Os oes gennyt bapur newydd lleol, gallet ystyried anfon llun a stori fer iddyn nhw am y sesiwn chwarae. Os wyt ti'n fodlon, cynnig dy gefnogaeth a dy fanylion cyswllt i strydoedd eraill sydd am annog chwarae stryd, a chofia eu cyfeirio at wefannau Playing Out a Chwarae Cymru. |



# Pryderon cyffredin am chwarae'r tu allan

Dyma rai o'r pryderon a'r gwrthwynebiadau mwyaf cyffredin sydd wedi codi o ran chwarae'r tu allan – a'n hymatebion ninnau. Rho wybod inni os doi di ar draws rhai eraill ac fe wnawn bopeth y gallwn i dy helpu.

Yn gyffredinol, mae'n dda inni geisio gwrando ar bryderon pobl a delio gyda nhw mewn ffordd adeiladol, ble fo modd. Gall apelio at atgofion pobl o chwarae'r tu allan yn ystod eu plentyndod eu hunain fod yn ffordd dda i gychwyn trafodaeth.

## Pam fod angen i blant chwarae ar y stryd pan fo parciau gerllaw?

Mae parciau'n wych ar gyfer diwrnod allan gyda'r teulu ac ar gyfer plant hŷn all fynd yno'n annibynnol ond o ran plant iau fe fydd, fel arfer, yn galw am daith arbennig, wedi ei threfnu a'i goruchwylio gan oedolion. Mae chwarae stryd yn wahanol iawn. Yn gyntaf, mae'n digwydd, yn llythrennol, ar riniog y drws felly gall y plant chwarae wedi eu 'lled-oruchwylio' a gallant fynd a dod yn annibynnol. Yn ail, bydd plant yn chwarae gyda'i gilydd ar y stryd yn helpu i greu ymdeimlad o gymuned ac o berthyn fydd, yn ei dro, yn gwneud dy stryd yn fan mwy diogel a mwy cyfeillgar.

## Pam na all plant chwarae yn eu gardd gefn eu hunain?

Mewn trefi a dinasoedd, os oes gennyt ardd o gwbl, mae'r gofod yn brin a'r profiad yn un ynysig. Mae chwarae stryd yn ffordd i blant gwrdd â phlant eraill ar eu stryd na fyddan nhw'n dod ar eu traws fel arfer (efallai eu bod yn mynd i ysgolion gwahanol neu eu bod o oedrannau gwahanol). Mae hefyd yn cynnig mwy o le a rhyddid i symud. Mae sgipio gyda rhaff fawr, chwarae 'sgots', mynd ar esgidiau rholio neu feic neu sgwter fel arfer yn amhosibl i'w gwneud mewn gardd gefn fechan.

## Alla' i ddal i yrru fy nghar at fy nhŷ?

Bydd trigolion yn dal i allu gyrru i mewn ac allan yn ystod y sesiwn os oes angen, ond yn araf iawn er mwyn sicrhau ei fod yn ddiogel i bawb. Efallai y teimlwch ei bod yn haws nac arfer ichi barcio ar y stryd, gan na fydd traffig trwodd yn ystod y sesiwn. I'r rheini sydd ddim yn byw ar y stryd, y cyfan y bydd yn ei olygu yw munud neu ddau ychwanegol ar amser eu siwrnai. Fydd y mwyafrif o sesiynau ond yn para awr neu ddwy a byddant yn cael eu cynnal cyn yr awr brysur ar ôl gwaith ac ar y penwythnos.

## Fyddwch chi'n gadael i ymwelwyr / cerbydau danfon nwyddau ddod trwodd?

Byddwn. Bydd y stiwardiaid yn sicrhau bod unrhyw yrwyr sydd am yrru i lawr y ffordd yn ymwybodol na chaniateir traffig trwodd ond os oes angen danfon nwyddau i dŷ penodol neu fod rhywun yn ymweld â'r stryd, bydd y stiward yn hebrwng y gyrrwr, a hynny fel malwen, at y tŷ dan sylw.

## Mae gen i fusnes ar y stryd. Beth am le parcio ar gyfer fy nghwsmeriaid?

Fel rhan o'r broses ymgeisio, dylid ymgynghori â phawb sydd o fewn yr ardal sydd i'w chau. Os ydych chi y tu allan i'r ardal sydd i'w chau siaradwch gyda'r trefnwyr am eich pryderon, a hynny mewn ffordd agored a chymdogol – fel arfer, bydd yn bosibl dod i ddealltwriaeth os byddwch wir angen mynediad i fannau parcio ar gyfer eich cwsmeriaid ond cofiwch, da chi, nad oes hawl penodol i barcio ar briffordd gyhoeddus, hyd yn oed i drigolion.

Mae cefnogaeth gref i hawl plant i chwarae'r tu allan ymysg rhieni a neiniau a theidiau'n benodol, felly efallai y gwelwch, trwy fod yn hyblyg neu gynnig eich cefnogaeth, y gallwch wella delwedd eich busnes ac ennill cwsmeriaid newydd.



## Ond ydi'r ffyrdd ddim ond ar gyfer ceir?

Mae'r syniad bod strydoedd preswyl yn ddim ond 'ffyrdd' h.y. mannau i ddim ond gyrru a pharcio ceir yn syniad sydd wedi tyfu'n raddol ac rydym bellach yn ei dderbyn. Tan y 1970au, roedd chwarae stryd yn rhywbeth cyffredin. Fe wnaeth 71 y cant o oedolion chwarae allan yn y stryd neu'r gymdogaeth yn blant, o'i gymharu â dim ond 21 y cant o blant heddiw[1].

Y stryd yw ein prif ofod cyhoeddus mewn trefi a dinasoedd a dyma ble y gellir creu ymdeimlad o gymuned. Mae chwarae'r tu allan yn ymwneud yn rhannol â herio'r syniad bod strydoedd yn ddim ond priffyrdd ac arddangos eu posibiliadau fel mannau cymdeithasol ar gyfer bawb.

## Pam fod angen cau'r ffordd? Fe fydden ni jesd yn chwarae'r tu allan pan oedden ni'n blant

Mae'r oes wedi newid. Mae llawer mwy o draffig ar y strydoedd heddiw a bellach 'dyw hi ddim mor arferol inni weld plant allan yn chwarae fel yn y gorffennol. 'Dyw gorfod trefnu i gau'r ffordd yn swyddogol am gyfnod er mwyn defnyddio'r stryd fel hyn ddim yn ateb tymor hir. Mewn rhai strydoedd tawel iawn mae plant yn dal i allu chwarae allan yn naturiol.

Fodd bynnag, mewn llawer o strydoedd preswyl, mae ceir – sydd wedi eu parcio ac sy'n symud – yn arglwyddiaethu i'r fath raddau fel bod chwarae'n amhosib. Yn yr achos hwn, mae sesiynau 'chwarae'r tu allan' yn cynnig ateb dros dro ac mae'n dangos beth sy'n bosibl. Yn ddelfrydol, byddai ein strydoedd yn fannau ble y gall ceir a phobl o bob oed gydfodoli'n hapus. Dyma nod tymor hir Playing Out.

## A fydd chwarae'r tu allan yn denu llawer o blant i fy stryd o strydoedd eraill?

Caiff chwarae'r tu allan ei drefnu gan drigolion a'r unig gyhoeddusrwydd fydd taflenni a phosteri ar ein stryd ein hunain. Mae'n gyfle i blant chwarae ar riniog eu drws eu hunain a fydd hwn ddim yn 'ddigwyddiad' cyhoeddus. Mae strydoedd yn fannau cyhoeddus, ond mae'n annhebyg iawn y gwelwch fwy na llond dwrn o 'bobl o'r tu allan' yn galw heibio, gan mai'r prif atyniad yw gallu chwarae'r tu allan i'ch cartref eich hun.

## Rwy'n poeni y bydd sŵn y plant yn chwarae'r tu allan yn tarfu arna' i

O'n profiad ni, mae'r strydoedd yn dawelach yn ystod sesiynau chwarae'r tu allan na phan maen nhw'n agored i draffig, i'r fath raddau fel eich bod yn fwy tebygol o glywed yr adar yn canu. Yn ogystal, byddai rhai pobl yn dweud bod sŵn plant yn chwarae'n rhywbeth gwych ac yn rhywbeth na fyddwn yn clywed digon ohono. Mewn trefi a dinasoedd, mae angen inni gyd fyw ochr-yn-ochr â'n gilydd a goddef lefel rhesymol o sŵn o weithgarwch pobl eraill. Mae rhaid i'r bobl hynny sydd ddim yn gyrru fyw gyda sŵn traffig.

Allwn ni ddim cyfyngu ein plant i'n tai, i'n ceir neu 'fannau chwarae' penodedig. Mae'r dref neu'r ddinas yn gartref iddyn nhw hefyd ac mae ganddyn nhw hawl i ddefnyddio gofod cyhoeddus. Os oes problem barhaus gyda chymdogion yn cwyno am blant yn gwneud gormod o sŵn, efallai y byddai'n briodol trefnu cyfarfod stryd i drafod y mater a cheisio dod i benderfyniad sy'n gwneud pawb yn hapus.

## Rwy'n poeni y caiff fy nghar ei ddifrodi

Os ydych chi'n nerfus iawn ynghylch difrod i'ch car, efallai yr hoffech ei barcio yn rhywle arall yn ystod sesiynau chwarae'r tu allan. Ond, prin iawn yw'r achosion o ddifrod yr ydym wedi clywed amdanynt yn dilyn y miloedd o sesiynau sydd wedi eu cynnal a fydden ni ddim yn disgwyl i lefel y risg fod yn llawer mwy nag ar ddiwrnod 'arferol', gyda cheir, lorïau, beicwyr a cherddwyr yn pasio trwodd.

Bydd rhieni'n gyfrifol am eu plant yn ystod sesiynau chwarae'r tu allan ond dylai unrhyw oedolyn sy'n gweld plentyn yn achosi difrod gael gair gyda nhw neu gyda'u rhieni. Bydd y trefnyddion a'r stiwardiaid yn gwneud eu gorau i sicrhau bod y plant yn chwarae'n ddiogel ac yn gyfrifol.

## Pwy wnaiff dalu os caiff fy eiddo ei ddifrodi?

O ran difrod i eiddo (yn cynnwys ceir), mae'r sefyllfa atebolrwydd yn union yr un fath pan fo'r ffordd wedi ei chau ac y mae dan amodau arferol h.y. bydd pobl yn derbyn cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain. Rhieni fydd yn gyfrifol am eu plant eu hunain a bydd angen i drigolion ddatrys unrhyw broblemau ymysg ei gilydd a gyda'u cwmni yswiriant.

## Dydw i ddim yn hoffi'r syniad o blant yn chwarae heb eu goruchwylio. Pwy fydd yn sicrhau na fyddan nhw'n gwneud drygioni?

Mae 'gwneud drygioni' yn rhan o blentyndod y byddwn ni gyd yn ei gofio, ond yn yr un modd ac y mae cael llond pen gan oedolion sydd ddim yn rhieni inni. Bydd pob cyhoeddusrwydd wedi ei gwneud hi'n gwbl glir mai rhieni fydd yn gyfrifol am eu plant eu hunain yn ystod y sesiynau. Ond, os bydd unrhyw oedolyn yn gweld plant sy'n chwarae'r tu allan ar y stryd yn camfihafio'n ddifrifol neu'n achosi difrod neu anaf, dylent gymryd cyfrifoldeb a siarad gyda'r plant neu â'u rhieni mewn ffordd resymol. Mae cael ein ffrwyno gan oedolion eraill yn ein cymuned yn brofiad dysgu pwysig.

## Ond a fydd hyn yn annog plant i feddwl bod y ffordd yn lle diogel i chwarae dan amodau arferol?

Rydym wedi cael llawer o sgyrsiau gyda rhieni am hyn ac mae cytundeb cryf bod hyd yn oed plant ifanc yn gallu deall y gwahaniaeth rhwng sesiwn chwarae'r tu allan ac amodau arferol. Dylid cytuno ar arwydd clir bod y ffordd yn 'ddiogel ar gyfer chwarae' a bydd rhieni'n sicrhau bod eu plant yn deall bod pethau 'yn ôl i normal' unwaith bod y sesiwn ar ben. Yn ogystal, mae sesiynau chwarae'r tu allan yn gyfle da i rieni siarad gyda'u plant am ddiogelwch ffordd a pherygl traffig.

## ’Does gen i ddim plant ifanc ac mae’r syniad yma’n gwneud imi deimlo fy mod yn cael fy eithrio o fy stryd fy hun.

Mae angen inni gofio, am y mwyafrif llethol o’r amser, efallai bod plant yn teimlo eu bod hwythau’n cael eu heithrio o’r gofod yma sydd ar riniog eu drws. Dim ond cyfle bach i unioni’r fantol yw chwarae’r tu allan. Dylai trefnwyr wneud yn siŵr bod trigolion o bob oed yn teimlo bod croeso iddyn nhw fod allan ar y stryd ac nad yw sesiynau’n teimlo fel dim ond digwyddiadau teuluol.

Yn yr un modd, ddylai neb deimlo bod unrhyw orfodaeth arnyn nhw i ‘ymuno yn yr hwyl’ os nad ydyn nhw am wneud hynny. Mewn rhai sesiynau, mae trigolion hŷn neu bobl sydd heb blant wedi helpu i stiwardio neu fwynhau eistedd y tu allan, cwrdd â chymdogion a rhannu atgofion am eu profiadau chwarae o’u plentyndod hwythau.

## Pa fuddiannau eraill sydd i chwarae’r tu allan?

Yn ogystal â strydoedd mwy diogel, ffactor allweddol arall wrth alluogi chwarae stryd yw caniatâd gan rieni. Mae rhieni’n teimlo’n bryderus ynghylch caniatáu i’w plant chwarae ar y stryd am bob mathau o resymau ac yn aml maen nhw’n teimlo’n ansicr ynghylch derbynioldeb diwylliannol gadael i blant chwarae’r tu allan ar y stryd. Mae sesiynau chwarae’r tu allan yn gyfle i rieni ddod at ei gilydd a chefnogi eu dymuniad cyffredin i adael i blant chwarae’r tu allan. Gweler 10 rheswm da dros chwarae ar y stryd ar dudalen 21 am wybodaeth fanylach am fuddiannau chwarae stryd.



# 10 rheswm da dros chwarae ar y stryd

1. Mae plant angen chwarae. Mae’n hanfodol ar gyfer eu datblygiad corfforol ac emosiynol ac ar gyfer eu dysg cymdeithasol. Mae hefyd yn un o’u hawliau dynol o dan Gonfensiwn y CU ar Hawliau’r Plentyn.

2. Mae plant angen profi chwarae’n rhydd, pan fyddant yn dilyn eu syniadau a’u diddordebau eu hunain. Mae hyn yn awgrymu lefel o ryddid ac annibyniaeth, na ellir ei fodloni gan chwarae a drefnir neu a oruchwylir yn ormodol.

3. Mae plant yn hoffi chwarae ger eu cartrefi ac maent wedi gwneud hynny, yn draddodiadol. Fe ganfu arolwg yn 2007 bod 71 y cant o oedolion wedi chwarae’r tu allan ar eu stryd bob dydd, o’i gymharu â dim ond 21 y cant o blant heddiw[2]. Y prif reswm a roddwyd am beidio chwarae’r tu allan oedd traffig.

4. Mae plant angen lle i chwarae’n egnïol. Mae llawer o gartrefi heb ardd ac, mewn trefi a dinasoedd, mae gerddi yn dueddol o fod yn fach. Mae parciau’n wych ond fydd llawer o blant ddim yn cael mynediad annibynnol iddyn nhw, felly’r stryd yw’r man amlwg ar gyfer chwarae bob dydd.

5. Mae chwarae ar y stryd yn cynyddu cydlyniad cymunedol ac yn dod â chymdogion o bob oed at ei gilydd trwy greu ymdeimlad o ofod cyffredin a chydberchnogaeth. Gall greu ymdeimlad o gydgyfrifoldeb ac, o ganlyniad, gynyddu diogelwch y gymdogaeth.

6. Mae chwarae ar y stryd yn galluogi plant i gwrdd a datblygu cyfeillgarwch y tu allan i’r ysgol ac mae hefyd yn cynyddu cysylltiad rhwng plant ac oedolion, sy’n helpu i greu agosrwydd ac ymddiriedaeth.

7. Trwy ddelio â sefyllfaoedd sy’n codi ar eu pen eu hunain, gall plant ddysgu sgiliau cymdeithasol gwerthfawr ac ennill dealltwriaeth o’r byd o’u hamgylch.

8. Mae chwarae ar y stryd yn caniatáu chwarae ‘wedi ei led-oruchwylio’. Gall rhieni yrru ymlaen gyda gwaith tŷ neu ofalu am blant eraill yn y tŷ tra’n caniatáu i’w plant chwarae’r tu allan. Mae plant yn llawer mwy tebygol o chwarae’r tu allan bob dydd os rhoddir caniatâd iddyn nhw chwarae’r tu allan i’w tŷ, yn hytrach na dibynnu ar eu rhieni i fynd â nhw i rywle.

9. Y stryd yw’r ‘man cychwyn ar gyfer pob taith’[3] ac mae gallu chwarae’n annibynnol ar y stryd yn gam cyntaf tuag at fwy o symudedd annibynnol o amgylch y gymdogaeth – i ymweld â ffrindiau, mynd i’r parc neu i gerdded i’r ysgol.

10. Mae strydoedd yn cyfrif am y mwyafrif sylweddol o ofod cyhoeddus mewn trefi a dinasoedd. Mae eu gweld fel dim ond mannau i yrru a pharcio ceir yn golygu ein bod yn eu tanbrisio’n ddifrifol. Gall strydoedd, ac fe ddylent fod, yn fannau ble gall pobl eistedd, siarad, darllen, chwarae a cherdded – a hyd yn oed ganu a dawnsio os ydyn nhw awydd! Yr unig ffordd y bydd hyn yn digwydd yw os byddwn yn dechrau eu defnyddio’n wahanol.

# Cwestiynau cyffredin

Dyma rai cwestiynau cyffredin oddi wrth bobl oedd am drefnu sesiynau chwarae'r tu allan ar eu strydoedd.

## Gwybodaeth gefndir

### Beth yw buddiannau chwarae'r tu allan yn dy stryd dy hun?

Mae llwyth o fuddiannau – gweler 10 rheswm da dros chwarae ar y stryd ar dudalen 21. Y rhain yw'r buddiannau 'mawr', ond wrth ei wneud fe ddoi di ar draws llawer o rai llai, sydd ddim mor amlwg ar gyfer y plant a'r oedolion ar dy stryd.

### Beth yw Playing Out?

Mae Playing Out yn fudiad dielw a sefydlwyd gan rieni i sbarduno chwarae stryd ar draws y DU. Mae'n dîm bychan wedi ei leoli ym Mryste ac mae'n cynnig cefnogaeth cyfeillgar 'ar lawr gwlad' i drigolion Bryste yn ogystal â chynnig cymorth a chefnogaeth ymarferol i drigolion ar draws y DU. Ebostia hello@playingout.net neu galwa 0117 953 7167.

### Beth yw Chwarae Cymru?

Mae Chwarae Cymru yn elusen annibynnol – ardal ein cylch gorchwyl elusennol yw Cymru. Rydym yn gweithio i gynyddu ymwybyddiaeth am angen a hawl plant a phlant yn eu harddegau i chwarae ac i hyrwyddo arfer dda ar bob lefel o lunio penderfyniadau ac ym mhobman y gallai plant chwarae. Rydym yn croesawu prosiectau a mentrau sy'n gwneud strydoedd a chymunedau'n fannau mwy chwarae-gyfeillgar ar gyfer plant a phlant yn eu harddegau. Mae gennym gytundeb gyda Playing Out i hyrwyddo a chefnogi sesiynau chwarae stryd trigolion yng Nghymru. Rydym wedi bod yn rhan o beilota nifer o sesiynau chwarae stryd.

### Beth yw 'Strydoedd Chwarae'?

Yn wreiddiol, roedd y term 'Strydoedd Chwarae' yn cyfeirio at strydoedd yng nghanol dinasoedd, oedd, o'r 1930au ymlaen, yn cael eu dynodi gan yr awdurdodau er mwyn gweithredu fel meysydd chwarae anffurfiol yn ystod oriau penodol.

Mae gwefan London Play yn cynnwys hanes strydoedd chwarae a gwybodaeth am ymdrechion i ailddatblygu strydoedd chwarae yn Llundain. Mae fersiwn wedi ei diweddaru o'r ddeddfwriaeth hon yn dal i gael ei defnyddio i wneud hyn gan rai cynghorau er mwyn galluogi cau ffyrdd yn rheolaidd ar gyfer chwarae, yn enwedig yn Llundain.

Mae'r term 'Strydoedd Chwarae' bellach yn cael ei ddefnyddio ynghyd â 'chwarae'r tu allan' neu 'strydoedd chwarae dros dro' er mwyn cyfeirio at yr achosion diweddar o drigolion yn cau ffyrdd dros dro ar gyfer chwarae, sy'n cyfrannu at sicrhau bod chwarae ar y stryd yn weithgarwch bob dydd, arferol ar gyfer plant ym mhobman.

## Gwneud cais i gau ffyrdd

### Sut alla' i 'drefnu' chwarae'r tu allan ar fy stryd?

Bydd llawer yn dibynnu ar ble rwyt ti yn y wlad, gan fod gan wahanol gynghorau wahanol bolisïau'n ymwneud â sut i gau dy ffordd ar gyfer chwarae.

### Sut alla' i ddysgu beth yw polisi fy nghyngor a phwy i gysylltu â nhw?

Galli ddechrau trwy edrych ar y map ar wefan Playing Out neu'r cyfeiriadur awdurdodau lleol – neu cysyllta gyda Chwarae Cymru neu Playing Out os na alli ddod o hyd i'r hyn yr wyt ei angen.

### Beth os nad oes gan fy nghyngor bolisi yn ei le?

Cychwynnodd y bobl y tu ôl i'r model Playing Out ym Mryste trwy gynnal sesiynau 'untro' gan ddefnyddio ffurflen gais 'parti stryd' y cyngor – ond nid i gynnal parti stryd, ond yn hytrach ddefnyddio'r broses i gau'r ffordd ar gyfer chwarae.

### Sut alla' i fynd ati i geisio cael y cyngor i fabwysiadu polisi chwarae stryd?

Yn dilyn llwyddiant sesiynau untro cyntaf Playing Out, fe gefnogodd Cyngor Dinas Bryste y syniad a diwygio eu polisi er mwyn caniatáu i strydoedd gael eu cau yn rheolaidd. Mae'r un peth wedi digwydd mewn ardaloedd awdurdodau lleol eraill ar draws y DU. Mae ennill cefnogaeth wleidyddol yn allweddol, felly rho wahoddiad i wleidyddion lleol i dy sesiynau cyntaf iddyn nhw weld y buddiannau drostynt eu hunain.

Mae dod o hyd i'r person 'cywir' yn y cyngor yn allweddol – gallai'r person yma fod yn gynghorydd, neu'n swyddog o'r adran Priffyrdd, Datblygu Cymunedol, Iechyd y Cyhoedd neu'r Gwasanaethau Plant / Chwarae, felly paid â chael dy ddigalonni gan ymateb negyddol ar y dechrau – chwilia am lwybr arall.

### Pa fodelau gwahanol sydd yna ar gyfer cau ffyrdd yn rheolaidd ar gyfer chwarae?

Ym Mryste, mae'r cyngor wedi datblygu polisi sy'n caniatáu i drigolion ymgeisio am Orchymyn Chwarae ar y Stryd Dros Dro (TPSO), fydd yn caniatáu iti gau dy stryd i draffig trwodd hyd at unwaith yr wythnos. Bydd trigolion yn dal i allu gyrru i mewn ac allan yn araf iawn, wedi eu hebrwng gan 'stiwardiaid' gwirfoddol.

Mae cynghorau eraill nawr yn cynnig fersiynau o'r polisi hwn, gan ganiatáu i drigolion benderfynu pa ddyddiau ac oriau i ymgeisio amdanynt, tra y bydd eraill yn cynnig dyddiadau penodol trwy gydol y flwyddyn. Fel arfer, bydd TPSOs yn para am flwyddyn, ac wedi hynny bydd angen iti ail-ymgeisio.

Mae rhai lleoedd eraill (yn enwedig yn Llundain) yn ceisio adfer 'strydoedd chwarae' parhaol mwy traddodiadol gydag arwyddion parhaol. Mewn egwyddor, gallai'r model hwn ganiatáu cau ffyrdd yn amlach, bod dydd hyd yn oed, er y byddai dal angen i'r trigolion wneud yn siŵr bod hyn yn digwydd yn ddiogel.

'Does fawr o ots pa lwybr cyfreithiol y bydd y cyngor yn dewis ei ddefnyddio, cyn belled â bod trigolion yn gallu agor eu stryd ar gyfer chwarae yn rhad, rhwydd a diogel, a hynny'n rheolaidd.

### Beth fydd angen imi ei wneud cyn ymgeisio?

Y peth pwysicaf iti ei wneud cyn ymgeisio fydd siarad gyda dy gymdogion am y syniad, efallai trwy gynnal cyfarfod anffurfiol, a gwneud yn siŵr bod gennyt ddigon o gefnogaeth a dy fod wedi ceisio tawelu unrhyw bryderon.

### Sut ddylwn i ymgeisio?

Ym Mryste, bydd y cyngor angen chwe wythnos i brosesu ceisiadau, ac mae amserlen debyg gan y rhan fwyaf o gynghorau eraill. Yn Hackney, Llundain ceir pedwar dyddiad cau bob blwyddyn ar gyfer derbyn ceisiadau. Y cyngor cyffredinol yw y gall gymryd tua thri mis i gychwyn. Unwaith iti benderfynu pa mor aml, a faint o'r stryd y byddi am ei gau a dy fod wedi ennill cefnogaeth pobl eraill, bydd angen iti fynd trwy'r broses ymgeisio ffurfiol.

Mewn rhai awdurdodau lleol yn y DU, mae'r cyngor yn darparu 'llythyr ymgynghori' safonol iti



ei lungopïo a'i roi trwy bob drws ar dy stryd. Os nad oes un o'r rhain gan dy gyngor, mae dal yn syniad da i wneud hyn er mwyn sicrhau bod pawb yn teimlo dy fod wedi ymgynghori gyda nhw – ceir templed o lythyr ymgynghori ar dudalen 33 iti ei ddefnyddio neu ei addasu. Mae'n syniad da ychwanegu nodyn cyfeillgar i dy gymdogion i fynd gyda'r ymgynghoriad ffurfiol.

Bydd gan bob awdurdod lleol broses sydd ychydig yn wahanol. Chwilia trwy fap Playing Out i ddysgu am broses dy gyngor lleol a phwy i gysylltu â nhw. Os nad oes polisi yn ei le neu os nad oes gan y cyngor broses fyddai'n caniatáu ichi chwarae'r tu allan, cysyllta gyda Playing Out neu Chwarae Cymru am gyngor.

### Pwy sydd angen imi ymgynghori â nhw?

Dylet ymgynghori gyda'r holl drigolion a busnesau o fewn yr ardal yr wyt yn gobeithio ei chau – fel arfer, trwy roi llythyr trwy eu drysau – a rhoi cyfle iddyn nhw godi unrhyw wrthwynebiadau neu bryderon. Efallai yr hoffet hefyd roi gwybod i bobl eraill sydd y tu allan i'r ardal gaiff ei chau ond allai gael eu heffeithio, er 'does dim rhaid iti wneud hynny.

### Sut ddylwn i ddelio gyda gwrthwynebiadau a phryderon?

Mae'n beth da sicrhau dy fod wedi gwahodd a gwrando ar gymaint o wahanol sylwadau â phosibl ar y stryd a dy fod wedi ceisio delio gydag unrhyw bryderon a godwyd mewn ffordd gymdogol ac agored (gweler Pryderon cyffredin ar dudalen 17). Cysyllta gyda Playing Out neu Chwarae Cymru os byddi angen cyngor a chefnogaeth, gan y gall delio gyda gwrthwynebiad cryf gan gymdogion fod yn ddigon annifyr.

### Fydd trigolion sydd ddim yn hapus yn gallu stopio'r cais rhag mynd yn ei flaen?

Bydd gan bob cyngor ei bolisïau ei hun ar gyfer ymateb i wrthwynebiadau ac mae'n werth holi beth yw'r rhain ymlaen llaw.

Mewn nifer o awdurdodau lleol caiff gwrthwynebiadau a dderbynnir gan y cyngor eu hystyried yn ofalus ac anfonir ateb atynt. Nod y cyngor fydd ymdrechu i ddatrys neu fynd i'r afael ag unrhyw wrthwynebiadau er mwyn i'r sesiynau allu bwrw yn eu blaen. Weithiau, mae'n bosibl y gwrthodir cais i gau stryd os bydd nifer o bobl wedi gwrthwynebu neu os nad oes modd datrys gwerthwynebiadau 'allweddol', ond mae hyn yn annhebygol iawn.

### Alla' i weld stryd yn cynnal sesiwn chwarae'r tu allan cyn imi ymgeisio?

Mae sesiynau chwarae'r tu allan mewn nifer o wahanol ardaloedd o'r wlad. Gweler y map ar wefan Playing Out neu cysyllta gyda Chwarae Cymru os hoffet gysylltu gyda rhywun sy'n lleol i ti fyddai'n fodlon dy wahodd draw i'w stryd a rhannu eu profiadau.

### Alla' i gynnal sesiwn untro i roi tro ar bethau?

Galli. Weithiau, bydd hyn yn syniad da os wyt ti'n ansicr neu pan wyt ti'n gwybod bod rhai trigolion yn ansicr am y syniad. Mewn rhai ardaloedd galli drefnu sesiwn untro gan ddefnyddio'r ffurflen TPSO neu ymgeisio dan y drefn parti stryd. Galli ailymgeisio am ail TPSO yn ystod yr un flwyddyn os byddi'n penderfynu cynnal sesiynau rheolaidd pellach. Os wyt ti'n ansicr ynghylch y modd gorau i wneud hyn, cysyllta gyda'r cyngor i holi beth yw'r broses yn dy ardal di. Gweler y map ar wefan Playing Out neu'r cyfeiriadur awdurdodau lleol am y wybodaeth gyswllt yn dy ardal.

### Sut mae hyn yn wahanol i barti stryd?

Y prif wahaniaethau yw:

- Gall trigolion ddal i yrru i mewn ac allan o'r stryd
- Caiff lleoliadau cau'r ffordd eu 'stiwardio'
- Mae'r pwyslais ar chwarae rhydd, wedi ei arwain gan y plant (nid gweithgareddau wedi eu trefnu)
- Cyfnod byr o amser (un i dair awr)
- Potensial i ddod yn rhan arferol, rheolaidd o fywyd y stryd.

Ond mae'n dal i fod â rhai o'r un buddiannau â pharti stryd, o ran gweld cymdogion yn dod i adnabod ei gilydd a'r stryd yn teimlo'n fwy diogel a chyfeillgar o ganlyniad. Bydd llawer o strydoedd yn cynnal sesiynau chwarae'r tu allan rheolaidd yn ogystal â pharti stryd blynyddol, sy'n teimlo'n fwy fel achlysur arbennig ar gyfer y stryd gyfan.

## Materion ymarferol

### Pa waith, amser ac ymdrech sydd ynghlwm â threfnu sesiynau chwarae'r tu allan?

Mae'n golygu tua 20 awr o 'waith' ar gyfer y prif drefnydd, o drefnu cyfarfod cychwynnol i gynnal y sesiwn cyntaf. Efallai bod hyn yn swnio fel llawer o amser, ond bydd hyn dros nifer o fisoedd a gellir ei rannu rhwng nifer o bobl. Yn ogystal, bydd llawer o'r amser yn cael ei dreulio'n siarad gyda dy gymdogion ac fe allai fod yn bleserus! Rho ddigon o amser i dy hun, cymer dy amser a gwna gymaint neu gyn lleied ag y mynni. Rydym wedi derbyn llawer o adborth oddi wrth bobl sy'n tystio pa mor werth chweil a boddhaus y maent yn teimlo oedd eu hymdrechion. Cysyllta gyda Playing Out neu Chwarae Cymru os oes gennyt unrhyw gwestiynau neu bryderon, os wyt ti angen cefnogaeth, neu os wyt ti am siarad trwy bethau.

### Pa mor aml ac am ba hyd fyddwn ni'n cau'r stryd?

Bydd angen i bob stryd ystyried beth fydd yn gweddu orau iddyn nhw, o fewn y cyfyngiadau a bennir gan y cyngor. Bydd dyddiau, amserau ac amlder cau'r stryd yn dibynnu ar argaeledd trigolion, trefnyddion a phlant a galli hefyd ystyried ffactorau eraill, er enghraifft os oes eglwys neu ysgol ar dy ffordd. Bydd rhai strydoedd yn cau am awr neu ddwy ar ôl ysgol ar ddiwrnod yn ystod yr wythnos, bydd eraill yn cau ar y penwythnos.

Bydd strydoedd yn cau yn wythnosol, bob pythefnos neu'n fisol, yn ddibynnol ar bolisi'r cyngor. Efallai y byddi am amrywio'r hyn y byddi'n ei wneud ar wahanol adegau o'r flwyddyn, er enghraifft cau'n llai aml yn y gaeaf, neu ar y penwythnos yn ystod y gaeaf ac yn ystod yr wythnos yn yr haf. Bydd angen iti ystyried sawl person sy'n debyg o gymryd rhan a fydd yn gallu helpu.

Efallai yr hoffet hefyd ystyried ffactorau eraill fel gweithgareddau ar ôl ysgol wedi eu trefnu (os bydd nifer fawr o'r plant yn mynd i gyfarfod Sgowtiaid ar nos Lun, efallai nad dyma'r diwrnod gorau i chwarae'r tu allan).

### Allwn ni ddal i chwarae'r tu allan yn y gaeaf neu wedi iddi dywyllu?

Bydd llawer o strydoedd yn chwarae'r tu allan trwy gydol y flwyddyn. Mae profi gwahanol dywydd a thymhorau yn un o fuddiannau pennaf chwarae'r tu allan. Yn y gaeaf, gall hefyd fod yn haws ac yn fwy deniadol i chwarae'r tu allan ar y stryd am gyfnod byr, yn hytrach na cherdded yr holl ffordd i'r parc.

Os wyt ti'n trefnu sesiynau ar ôl ysgol, efallai y byddi am eu cadw'n fyr (mae hyd yn oed tri chwarter awr yn gyfle gwerthfawr i redeg o gwmpas) wrth i'r dyddiau fyrhau ac fel y bydd yn oeri i'r oedolion sefyllian o gwmpas, neu, os yw'r broses ymgeisio leol yn caniatáu hynny, gallet newid i gynnal sesiynau penwythnos trwy'r gaeaf a'u cynnal yn gynharach yn y dydd. Mae'n syniad da ei gadw i fynd os oes modd (ond heb wthio'r mater), er mwyn cynnal ymdeimlad ei fod yn rhywbeth 'normal' a rheolaidd.

Gallet hefyd feddwl am wneud sesiynau'r gaeaf yn 'arbennig' mewn rhyw ffordd, er mwyn cynnal brwdfrydedd. Mae rhai strydoedd wedi cynnau tanau bychain mewn 'padell dân' neu wedi dod â siocled poeth allan i'w rannu.

### Allwn ni chwarae allan yn y glaw?

Yn bendant. Rydym wedi dysgu bod plant, yn gyffredinol, wrth eu bodd yn cael cyfle i wisgo eu welis a chwarae allan yn y glaw (ac eto, maen nhw'n fwy tebygol o wneud hyn y tu allan i ddrws eu tŷ, yn hytrach na mynd i'r parc). Cyn belled â bod y stiwardiaid yn hapus i sefyll y tu allan a dy fod wedi ystyried unrhyw risgiau ychwanegol, 'does dim rheswm i ganslo.



Os yw hi'n wyntog iawn, gallai hyn fod yn fwy o broblem – bydd angen iti, yn benodol, wneud yn siŵr bod unrhyw arwyddion wedi eu hangori'n ddiogel.

### A oes cyfyngiad oedran?

Na. Dylai sesiynau chwarae'r tu allan fod yn agored i bawb a heb eu cyfarwyddo. Rydym wedi sylwi bod plant hŷn (deuddeg oed ac i fyny) fel arfer yn llai awyddus i fod mewn amgylchedd sydd â chymaint o oruchwyliaeth oedolion a, gobeithio, bod ganddynt fwy o ryddid i grwydro ymhellach oddi adref. O ran plant iau, cyn belled â'u bod yn gallu symud, fe allan nhw chwarae. Bydd hyd yn oed babis a phlantos bach yn cael llawer o'r profiad ac mae'n ffordd wych i blant o bob oed ryngweithio â'i gilydd. Yn aml, bydd plant o wahanol ysgolion yn cael cyfle i gwrdd a chwarae hefyd.

### Beth os ydw i'n byw ar briffordd neu lwybr bysiau?

Efallai y bydd hyn yn broblem o ran cau'r ffordd, ond cofia wirio gyda'r cyngor. Fel arall, mae'n bosibl iawn bod pethau eraill y gallet ystyried eu gwneud i alluogi mwy o chwarae'r tu allan a gwell ymdeimlad o 'berthyn' ar dy stryd. Edrych ar y Pethau rhwydd a didrafferth ar dudalen 31 am ysbrydoliaeth. Mae 'Chwarae palmant' yn un model y bydd rhai strydoedd yn ei ddefnyddio, ble bydd trigolion yn cytuno ar amser penodol i ddod allan a lled-oruchwylio eu plant yn chwarae allan ar y palmant. Os yw traffig yn gyrru'n broblem, efallai yr hoffet feddwl am geisio sicrhau rhywfaint o gamau tawelu traffig, neu gynnal ymgyrch '20s Plenty'.

### Pa arwyddion a rhwystrau ddylen ni eu defnyddio? Sut alla' i gael gafael ar y rhain?

Bydd pob lleoliad ble mae'r ffordd wedi ei chau angen, o leiaf, arwydd 'Ffordd ar Gau' swyddogol a rhwystr cadarn ar draws y ffordd. Yn dibynnu ar batrwm y strydoedd cyfagos, bydd rhai ffyrdd angen arwyddion 'Ffordd Ymlaen ar Gau' hefyd i rybuddio gyrwyr na fydd modd iddyn nhw fynd trwodd ac efallai y bydd rhai angen rhwystrau ychwanegol fel conau. Bydd y stiwardiaid yn gwisgo gwasgodau llachar a bydd ganddynt chwibanau i'w chwythu pan fydd car am ddod trwodd. Gall Chwarae Cymru dy gynghori ar becynnau offer cau ffordd.

### Beth os ydw i am ganslo sesiwn neu newid yr amserau?

Os penderfyni di ganslo sesiwn, efallai oherwydd tywydd gwael neu ddiffyg stiwardiaid, galli wneud hynny heb hysbysu'r cyngor. Mae'r un peth yn wir os penderfyni gynnal sesiwn fyrrach na'r hyn yr ymgeisiwyd amdano. Er enghraifft, os wyt wedi derbyn caniatâd i gau o 3.00pm tan 6.00pm ond eich bod yn penderfynu chwarae'r tu allan o 4.00pm tan 5.30pm, mae hynny'n iawn cyn belled â dy fod yn egluro'n gwbl glir i'r trigolion mai dyma beth fyddi'n ei wneud. Fodd bynnag, os byddi am newid amserau neu ddyddiadau sesiynau i rai nad yw dy ganiatâd cyfredol yn ei gwmpasu, bydd angen iti gysylltu gyda'r cyngor ac efallai y bydd angen iti ail-ymgeisio.

### Ddylwn i geisio cael sylw yn y cyfryngau lleol ar gyfer y gweithgarwch ar fy stryd?

Gall gofyn i dy bapur newydd neu dy orsaf radio leol ddod draw i sesiwn fod yn ffordd wych i gael pobl i feddwl am y mater, lledaenu'r syniad o chwarae'r tu allan a hyd yn oed ennill cefnogaeth y cyngor. Fodd bynnag, rydym wedi sylweddoli bod ambell i beth i'w ystyried yn gyntaf. Cysyllta gyda Playing Out os wyt ti am drafod neu os oes gennyt unrhyw gwestiynau.

### Sut alla' i sicrhau mai dim ond pobl o fy stryd ddaw i'r sesiwn?

Mae'r mwyafrif o strydoedd yn briffyrdd cyhoeddus ac yn fannau cyhoeddus, sy'n un o'r pethau gwych amdanyn nhw, felly byddai'n anghywir ceisio atal pobl rhag dod i'r stryd o fannau eraill. Dim creu 'cymuned gaeëdig' yw'r bwriad. Ar yr un pryd, 'dwyt ti ddim am sylweddoli dy fod yn cynnal digwyddiad cyhoeddus. Cyn belled â dy fod yn cadw unrhyw gyhoeddusrwydd i'r stryd ei hun ac nad wyt yn cynnal unrhyw weithgareddau wedi eu trefnu, rwyt yn annhebyg iawn i weld mwy na llond dwrn o 'ymwelwyr ychwanegol' yn dod draw i weld beth sy'n digwydd.

### Fydd angen imi gael unrhyw offer neu drefnu gemau?

Na. Mae cadw pethau'n 'normal' yn dda ac yn rymus, ac mae'n dangos mai'r pethau pennaf y mae plant eu hangen yw lle a rhyddid i chwarae ar riniog y drws, yn hytrach na rhywun yn dangos iddyn nhw beth i'w wneud. O'n profiad ni, fyddan nhw ddim angen llawer i wneud y mwyaf o'r cyfle a byddant yn barod iawn i ddod â'u teganau eu hunain allan, yn sgwteri, beics, esgidiau rholio a chylchoedd hwla. Mae'r stryd yn 'ddalen wag' wych, fydd yn annog y plant i fod yn greadigol a throi'r gofod yn eiddo i'w hunain.

Fodd bynnag, efallai yr hoffet ddarparu rhai eitemau ychwanegol fel sialc palmant, rhaffau sgipio hir, cylchoedd hwla a pheli meddal (yn lle peli caled).

### Sut allwn ni sicrhau na fydd pobl sydd heb blant yn teimlo eu bod yn cael eu heithrio?

Gwna'n siŵr bod unrhyw lythyrau a chyhoeddusrwydd yn mynd i bob cartref, nid dim ond i'r rhai sydd â phlant neu'r rheini yr wyt yn credu fyddai â diddordeb. Dechrau'r broses gyda chyfarfod agored ar gyfer y trigolion i gyd a chofia egluro dy fod am i hyn fod yn rhywbeth ar gyfer y stryd gyfan, nid dim ond plant ifanc a'u rhieni. Gall pobl wedi ymddeol a myfyrwyr fod yn arbennig o ddefnyddiol fel stiwardiaid ac efallai y byddai pobl sydd heb blant yn gwerthfawrogi cael mynediad i'r gymuned na fyddai ganddyn nhw fel arall.

### Beth ddylwn i ei wneud am strydoedd cefn?

Mae'n bwysig iti asesu risg yr holl ffyrdd / hawliau tramwy sy'n arwain i'r stryd yr wyt wedi ei chau ar gyfer chwarae. Bydd angen stiwardio pob cyffordd. Hyd yn oed os yw'r stryd gefn yn ffordd bengaead neu'n lôn gefn sy'n arwain at garejis, mae'n bwysig rhoi arwydd i yrwyr sy'n dod allan o'r lôn yma bod y ffordd ymlaen ar gau, ac i stiwardio'r gyffordd.

## Cyfrifoldeb ac atebolrwydd

### Beth yw cyfrifoldebau'r ymgeisydd?

Dylai'r ffurflen gais neu'r cais am Orchymyn Chwarae ar y Stryd Dros Dro (TPSO) egluro cyfrifoldebau'r ymgeisydd (y person fydd yn arwyddo'r ffurflen). Fel arfer, bydd y rhain yn cynnwys:

- Sicrhau bod cau ac ailagor y ffordd yn cael ei reoli'n ddiogel a gan ddefnyddio'r arwyddion cywir
- Sicrhau na wneir unrhyw ddifrod parhaol i'r briffordd gyhoeddus
- Sicrhau bod rhieni'n ymwybodol eu bod yn gyfrifol am eu plant eu hunain, fel unrhyw ddiwrnod arall.

Fel yr ymgeisydd enwebedig, fydd dim angen iti fod yn bresennol ym mhob sesiwn. Fodd bynnag, byddi'n dal i fod yn gyfrifol am y pwyntiau a restrir.

Yn aml, bydd yr ymgeisydd yn mabwysiadu rôl y trefnydd gan sicrhau bod stiwardiaid yn eu lle a bod arwyddion yn cael eu gosod.

### Beth ddylen ni ei wneud os bydd plant yn troi i fyny heb oedolyn?

Cyfrifoldeb y trefnyddion a'r stiwardiaid fydd gwneud y stryd yn gymharol ddiogel trwy stopio traffig trwodd a sicrhau bod trigolion yn gyrru yn araf iawn, ac nid gwarchod plant pobl eraill. Mae'n werth ymdrechu ymlaen llaw i sicrhau bod pob cyhoeddusrwydd yn nodi'n glir mai rhieni fydd yn gyfrifol am eu plant eu hunain ac, er y bydd oedolion sydd o gwmpas yn anelu i gadw llygad am unrhyw broblemau, ni fydd unrhyw un yn 'gwarchod' plant ddaw i'r stryd heb oedolyn.

Os oes gennyt unrhyw wir bryderon am blant ddaw draw ar eu pen eu hunain, unai oherwydd eu bod yn ymddangos yn rhy ifanc neu'n rhy anghyfrifol i fod allan ar eu pen eu hunain, fe ddylet geisio siarad gyda'u rhieni. Os ydyn nhw wedi dod o'r tu allan i dy stryd di, efallai y gallet roi nodyn i'r plentyn fynd adref, yn egluro'n gwrtais mai unig rôl y trefnyddion yw rheoli'r traffig a bod rhieni'n dal i fod yn gwbl gyfrifol am eu plant eu hunain. Eglura, mewn ffordd gyfeillgar, bod chwarae'r tu allan yn ymdrech gymunedol ar y cyd, a gwahodd y rhieni i ddod draw i'r sesiwn nesaf a helpu i stiwardio a / neu gwrdd â gweddill y cymdogion.

### Fydd stiwardiaid angen gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS – yr hen CRB)?

Cyn belled â dy fod yn glir mai digwyddiad anffurfiol yw hwn, a drefnir gan gymdogion ar eu stryd eu hunain, bod rhieni'n gyfrifol am eu plant eu hunain ac nad wyt ti'n darparu gofal plant wedi ei drefnu, ddylai bod dim rheswm i fynd trwy'r cam ffurfiol hwn. Mae'r sesiynau, yn syml, yn ffordd i blant chwarae mewn stryd ddi-draffig. Mae'n bosibl y byddan nhw'n dod i gysylltiad â chymdogion o bob oed a gall hyn fod yn ffordd dda i ddysgu am ryngweithio'n ddiogel ac yn gadarnhaol gydag oedolion yn eu cymuned. Rôl y stiwardiaid, yn syml, fydd gwneud yn siŵr bod y stryd yn ddiogel ac nid gwarchod unrhyw blant.

Os ydych chi'n fudiad sy'n darparu gwirfoddolwyr neu weithwyr chwarae yna, bydd angen ichi ddilyn eich gweithdrefnau diogelu eich hun.

### Fydd angen inni ddarparu cymorth cyntaf?

Mae wastad yn dda i wybod os yw un o dy gymdogion wedi ei hyfforddi mewn cymorth cyntaf, neu os oes gan rywun flwch cymorth cyntaf neilltuol o dda. Ond, os bydd plentyn yn anafu ei hun, bydd i fyny i'r rhiant neu'r gofalwr i'w trin, fel y byddent pe bae eu plentyn yn chwarae mewn parc neu ar y palmant.

### Mae fy stryd ar fryn serth / oddi ar ffordd fawr brysur iawn / yr ochr draw i gornel ddall – fydd hi'n ddiogel?

Fe ddylet gynnal asesiad risg syml a chofio nodi unrhyw faterion penodol sy'n berthnasol i dy stryd. Ar fryn, er enghraifft, efallai y byddai plant yn achub ar y cyfle i *ffri-wilio* ar feiciau neu sgwteri mewn modd na fydden nhw'n ei wneud pan fo'r ffordd yn agored i geir. Os digwydd damwain, gellid cyhuddo'r trefnyddion o annog yr ymddygiad yma, felly bydd angen iti feddwl sut i leihau'r risg yma. Bydd datgan yn glir bod rhieni'n gyfrifol am eu plant eu hunain yn mynd beth o'r ffordd tuag at sicrhau hyn ond efallai y bydd angen iti feddwl hefyd am roi mesurau eraill yn eu lle er mwyn cadw pawb yn ddiogel, fel llinell dechrau a gorffen wedi ei thynnu mewn sialc ar draws y ffordd.

Os oes gennyt bryderon am y traffig, a phatrwm penodol dy stryd, dylai swyddogion y cyngor sy'n delio gyda dy gais i gau'r ffordd allu helpu i dy gynghori ar y defnydd cywir a'r drefn ar gyfer gosod arwyddion a rhwystrau i sicrhau diogelwch.

### Allen i (fel y trefnydd / ymgeisydd 'enwebedig' ar fy stryd) fod yn atebol, o bosibl, am anafiadau neu ddifrod allai ddigwydd o ganlyniad i gynnal y sesiwn?

Mae rhai posibiliadau sy'n destun pryder imi'n cynnwys:

- Anafiadau'n digwydd yn ystod y sesiwn
- Difrod i eiddo (yn cynnwys eiddo'r cyngor / adran priffyrdd) yn ystod y sesiwn
- Plant yn cael eu taro gan gar y tu allan i gyfnod y sesiwn / yr ardal sydd wedi ei chau.

Mae wastad rhywfaint o risg o atebolrwydd am anafiadau neu ddifrod i eiddo os byddi'n trefnu unrhyw ddigwyddiad. Ond, os byddi wedi cwblhau asesiad risg a glynu at y canllawiau a geir yn y canllaw hwn byddi wedi cymryd camau i warchod dy hun yn erbyn unrhyw hawliad posibl.

Yn gyffredinol, byddi ond ag atebolrwydd posibl am yr hyn fydd yn digwydd o fewn yr ardal sydd wedi ei chau ac yn ystod cyfnod y sesiwn (neu'n syth cyn neu ar ôl y sesiwn). Byddai unrhyw ddifrod arall yn rhy ymylol.

Yn olaf, cofia na fydd pob person sy'n dioddef anaf bychan neu ddifrod i'w eiddo, o reidrwydd, yn gwneud hawliad. Cofia sicrhau dy fod yn delio gydag unrhyw anafiadau fydd yn digwydd mewn modd cefnogol, a chyflym a chadw gofnod am bob un, rhag ofn.

### A fyddai yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus (unai yn fy enw i neu grŵp o drigolion) yn fy amddiffyn os bydd unrhyw un yn dioddef anaf neu ddifrod i eiddo?

Nid oes gan y mwyafrif o strydoedd sy'n cynnal sesiynau chwarae'r tu allan ar hyn o bryd unrhyw yswiriant ac yn sicr gallai'r gost (rhwng £50 a £100) roi stop ar bopeth, ond mae'n fater i bob stryd unigol benderfynu arno. Dyma'r cyngor cyfreithiol y mae Playing Out wedi ei dderbyn:

*'Os cynhaliwch chi asesiadau risg gofalus a rhoi rheoliadau addas yn eu lle ddylech chi fod â dim i boeni yn ei gylch. Fodd bynnag, gall y llysoedd fod yn llawn cydymdeimlad i bobl sydd wedi eu hanafu, yn enwedig plant. Felly, byddem yn cynghori sicrhau yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus, wnaiff dalu am hawliadau o'r fath ar eich rhan.'*

Am ganllawiau i'w gwneud â yswiriant gweler gwefan Playing Out.



### Fydd y trefnydd enwebedig yn atebol am unrhyw esgeulustod os nad yw'n bresennol?

Gallai'r trefnydd enwebedig fod yn atebol os yw achos unrhyw anaf neu ddifrod yn rhan annatod o'r modd y cafodd y digwyddiad ei gynllunio neu ei drefnu. Er enghraifft, os oeddet wedi methu dynodi lôn gefn fel mynedfa bosibl ar gyfer ceir a bod car wedi dod i'r stryd o hon ac achosi anaf. Fodd bynnag, mae'n debyg na fyddai atebolrwydd pe bai stiward mynedfa benodedig yn absennol, a hynny'n groes i dy gyfarwyddiadau, a bod yr un ddamwain yn digwydd.

Fydd dim ots am y gwahaniaeth hwn os oes gennyt yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus priodol gan y byddai'r yswiriant yn cwmpasu'r ddau fath o atebolrwydd yma. Ond, yn gyffredinol, mae'n well bod yn bresennol yn y digwyddiad os oes modd, gan mai ti fydd â'r trosolwg gorau o'r holl sesiwn a ti fydd yn y sefyllfa orau i sylwi os nad yw rhywun yn cadw at y cynllun. Os nad yw hyn yn bosibl, mae'n werth penodi rhywun dibynadwy yn dy le.

### Pwy fydd yn atebol os caiff plentyn ei anafu gan gar ddaw i mewn i'r adran o'r ffordd sydd wedi ei chau?

Cyn belled â dy fod wedi glynu at y gweithdrefnau cywir sy'n berthnasol i gau ffyrdd a stiwardio, mae bron yn sicr mai gyrrwr y car fyddai'n cael ei ystyried yn atebol yn y sefyllfa hon. Cafwyd achos ym Mryste yn 2014, ble gyrrodd person i mewn i'r rhan o'r ffordd oedd wedi ei chau yn gyflym iawn. Er, yn ffodus iawn, na anafwyd unrhyw un cafwyd y gyrrwr yn euog o yrru'n beryglus.

### Os bydd y cyngor yn cynnwys 'cymal indemniad' wrth gytuno i gau'r ffordd, fydd hynny'n eu rhyddhau o unrhyw atebolrwydd?

Nid yw'n bosibl i'r cyngor eithrio atebolrwydd am anaf personol neu farwolaeth a achosir gan ei esgeulustod ei hun. Er enghraifft, pe bae carreg balmant wedi torri y byddai'r cyngor yn atebol amdani pan fyddai'r ffordd ar agor, fe fyddan nhw'n dal i fod yn atebol pan fo'r ffordd wedi ei chau. Fodd bynnag, mae'r cymal yn effeithiol ar gyfer sicrhau na fyddan nhw'n gyfrifol am unrhyw atebolrwydd am unrhyw beth sy'n codi o ganlyniad uniongyrchol i gau'r ffordd a / neu'r sesiwn.

### Pa gamau alla' i eu cymryd i leihau risg ac atebolrwydd am unrhyw ddamweiniau allai ddigwydd yn ystod neu ar ôl sesiwn?

Mae'n werth cynnal asesiad risg a chynnwys pobl eraill yn hyn fel bod cymaint o bobl â phosibl yn gwbl ymwybodol o'r risgiau a bod y cyfrifoldeb yn cael ei rannu. Bydd llawer o gynghorau'n mynnu hyn fel rhan o'r cais i gau stryd dros dro. Defnyddia'r canllawiau yn y canllaw yma a'r papur briffio i stiwardiaid a dilyn unrhyw gyfarwyddiadau neu arweiniad a roddir gan dy gyngor ar gau'r ffordd yn ddiogel. Yn olaf, gwna'n siŵr bod pawb sy'n rhan o'r cynllun yn ymwybodol o unrhyw risgiau a chyfrifoldebau, yn enwedig rhieni a stiwardiaid.

## Cwestiynau eraill

### Rwy'n byw mewn stryd bengaead ble mae'r plant yn chwarae allan eisoes ond fe hoffwn ei gwneud hi'n fwy diogel ond heb fod yn rhy ffurfiol. Unrhyw awgrymiadau?

Os yw'r plant yn chwarae'r tu allan yn naturiol eisoes mae hynny'n wych a bydd angen iti fod yn ofalus nad wyt ti'n cyfleu neges bod rhywbeth o'i le gyda hyn, tra hefyd yn ei gwneud hi'n fwy diogel ac annog mwy o blant i chwarae'r tu allan. Mae rhai strydoedd pengaead wedi llwyddo i gael y cyngor i gytuno i osod arwyddion 'Plant yn Chwarae' anffurfiol i rybuddio gyrwyr ceir i yrru'n ofalus. Bydd rhai yn cynnal fersiwn o sesiynau 'chwarae'r tu allan' heb gau'r ffordd yn ffurfiol, ond trwy gael stiwardiaid yn eu lle i hebrwng ceir i mewn ac allan yn ddiogel.

### Mae cau fy stryd yn teimlo fel cam mawr. Oes pethau llai y gallwn eu gwneud?

Oes, mae llawer o bethau – edrych ar y rhestr Pethau rhwydd a didrafferth ar dudalen 31 neu ymuna â grŵp Facebook Playing Out i weld beth mae pobl wedi eu gwneud ar strydoedd eraill. Bydd unrhyw beth y galli ei wneud i ddod i adnabod dy gymdogion yn well neu ddechrau treulio mwy o amser allan ar dy stryd yn helpu i greu'r amodau ar gyfer chwarae stryd.

### Alla' i drefnu chwarae stryd ger ysgol fy mhlant?

Galli. Mae trefnu sesiwn chwarae ar y stryd ger ysgol yr un fath â stryd chwarae 'arferol' ond gydag ychydig o elfennau ychwanegol. Mae'n bwysig sicrhau dy fod yn ymgynghori'n llawn gyda'r ysgol yn ogystal â'r trigolion i gyd, a'u bod yn cefnogi'r syniad yn llwyr a bod yr ysgol yn gallu aros yn agored yn ystod y sesiwn chwarae ar y stryd. Mae Hackney Play yn Llundain wedi ysgrifennu canllaw ar chwarae ar y stryd ger ysgolion:
www.hackneyplay.org/playstreets/tools-for-schools

# Pethau rhwydd a didrafferth

Mae llawer y galli ei wneud i wneud y lle y tu allan i dy gartref yn fwy chwareus a chyfeillgar heb drefnu i gau'r ffordd yn ffurfiol.

## Pam cychwyn yn fach?

Yn aml, syniadau a gweithredoedd bychain, personol fydd fwyaf grymus, ac maen nhw'n le da i gychwyn os yw bywyd yn rhy brysur neu os nad wyt ti'n teimlo fel trefnu unrhyw beth. Mae eistedd ar riniog y drws gyda dy blant a dweud helo wrth bobl sy'n mynd heibio, tynnu lluniau ar y palmant gyda sialc, neu ddim ond meddwl yn wahanol am dy stryd, i gyd yn fannau cychwyn syml. Dyma ambell syniad ac awgrym:

## Dere â chadair allan i eistedd ar riniog y drws

Neu yn dy ardd ffrynt neu ar y palmant. Beth am ddod â phaned o de neu bapur newydd os byddai hynny'n dy helpu i deimlo'n fwy cyfforddus? Dy le di yw hwn. Cadwa lygad ar rythm y stryd a'i thrigolion. Gwena a dweud helo wrth bobl wrth iddyn nhw basio. Ceisia annog sgwrs fer os yw hynny'n teimlo'n iawn.

## Sylwa ar yr hyn yr wyt ti'n ei hoffi am dy stryd

Yw hi'n stryd brysur a diddorol? Wyt ti'n mwynhau'r ffordd y bydd yr haul yn llifo i lawr y stryd ddiwedd y prynhawn? Allet ti ddatblygu neu annog yr hyn yr wyt yn ei fwynhau eisoes? Os wyt ti'n hoffi bocsys blodau un o dy gymdogion, efallai yr hoffet ddweud wrthyn nhw a phrynu blychau neu focsys ffenestr ar gyfer dy dŷ dithau. Os wyt ti'n mwynhau clywed sŵn plant yn chwarae gerllaw, rho wybod iddyn nhw.

Sylwa sut y mae pobl yn defnyddio'r stryd ar hyn o bryd ac os yw'r plant allan ar eu pennau eu hunain. Wrth iti gerdded o gwmpas dy gymdogaeth, dechrau sylwi ar, neu hyd yn oed ysgrifennu neu dynnu lluniau, gyda phensil neu gamera, o'r hyn yr wyt yn ei weld a rhannu'r rhain gydag eraill fel ffordd o sbarduno sgwrs.

## Agor ddrws y ffrynt

Os wyt ti yn y tŷ'n ystod y dydd ac yn teimlo'n ddigon diogel, bydd drws agored yn rhoi arwydd i'r cymdogion a phobl sy'n pasio heibio dy fod adref a bod 'llygaid ar y stryd'. Efallai y bydd hefyd yn annog dy gymdogion i wneud yr un peth, gan wneud i'r stryd deimlo'n fwy diogel a byw.

## Rho ganiatâd i dy blant chwarae'r tu allan ar riniog y drws

Neu o fewn ardal gytûn o'r ardd ffrynt, y palmant neu'r gymdogaeth. Mae eistedd y tu allan gyda phlant iau yn gyfle i ddatblygu eu diogelwch ffyrdd, 'doethineb stryd' a'u sgiliau cymdeithasol. Wrth i'w hyder dyfu neu os ydyn nhw'n hŷn, fe allet ti fod yn y tŷ gyda'r drws ffrynt ar agor a chadw llygad arnyn nhw o bryd i'w gilydd. Mae sialc a swigod yn wych ar gyfer eu cadw'n nes at adref – neu gadael iddyn nhw ddod â rhai o'u hoff deganau allan i flaen y tŷ. Mae sgwteri, esgidiau rholio a beiciau'n gweithio'n dda ar y palmant hefyd.

## Rho dro ar ddefnyddio sialc

Mae sialc yn ffordd rad, dros dro i ti a dy blant wneud eich marc a gwahodd chwarae a rhyngweithio mewn man penodol. Bydd yn golchi i ffwrdd yn sydyn yn y glaw a thros amser neu, os yw'n well gennyt, gyda rhywfaint o ddŵr a brwsh. Cadw'r sialc i balmentydd cyhoeddus ac wyneb y stryd, neu gofynna am ganiatâd oddi wrth y perchnogion os byddwch am ddefnyddio sialc ar waliau neu eiddo preifat.

## Chwilia am esgus i sgwrsio gyda'r cymdogion

Defnyddia unrhyw esgus i ddod i adnabod dy gymdogion. Cynnig help llaw i ddadlwytho ceir neu i ddod â'r biniau i mewn, mynd i mewn ac allan o leoedd parcio tynn ac yn y blaen. Benthyca gwpanaid o siwgr neu cynigia'r fresychen nad wyt ei hangen neu un o hen deganau dy blentyn iddyn nhw. Siarad am y tywydd. Mae'r mwyafrif o bobl yn hoffi'r sylw, os byddi'n dangos gwir ddiddordeb. Os ydyn nhw i'w gweld yn anghyfforddus, mae'n dda gwybod hynny hefyd.

Os byddi'n cael ymateb negyddol parhaus oddi wrth gymdogion er gwaetha' dy gamau cyfeillgar, neu dy fod yn cael dy feirniadu am adael i dy blant chwarae'r tu allan ar y palmant, efallai y cei dy annog gan adrannau 10 rheswm da dros chwarae ar y stryd a Phryderon cyffredin y canllaw yma.

## Atgoffa gyrwyr bod pobl yn byw ar dy stryd

Mae gwaith ymchwil wedi dangos bod traffig yn gallu cael effaith negyddol ar sut y byddwn yn teimlo am ein strydoedd a'n cymdogion – mae crynodeb yn y fideo byr ar wefan Playing Out. Gall y 'niwed anweledig' yma wneud inni deimlo'n anniogel ac achosi inni gilio o'r stryd. Bydd yr encilio yma'n cynyddu'r ymdeimlad o ynysu ac ofn ar gyfer llawer o bobl sydd, yn ei dro, yn cynyddu eu dibyniaeth ar ddefnyddio'r car. Mae'n tyfu'n gylch dieflig.

Pan fyddwch chi'n weladwy i yrwyr, efallai y bydd yn eu helpu i gofio i arafu oherwydd bod pobl yn byw ar dy stryd. Mae traffig sy'n goryrru a gyrru peryglus yn fygythiad ac yn rhwystr i chwarae, felly gwylia ffilm Safer Streets plant Room 13, a'i rhannu gydag eraill, er mwyn dy helpu i gyfathrebu'r gwir gost.
www.playingout.net/inspiration-ideas/exhibitions-projects/hartcliffe-safer-streets-films-event/

Gall y gweithgareddau a restrir uchod helpu i newid pethau ar dy stryd. Mae'n gam dewr a gwerthfawr i ddim ond adennill rhywfaint o'r gofod sydd o flaen dy dŷ.



# Templed llythyr ymgynghori

**At:** Y Preswylydd

**Oddi wrth:** ______________________________

**Cyfeiriad:** ______________________________

______________________________

______________________________

**Fy rhif ffôn:** ______________________________

**Fy e-bost:** ______________________________

**Dyddiad:** ______________________________

Annwyl Syr / Madam,

**Par: Gorchymyn arfaethedig Cau Stryd Chwarae Dros Dro**

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu fy mod yn y broses o ymgeisio am Orchymyn Stryd Chwarae Dros Dro i gau'r ffordd / ffyrdd canlynol:

______________________________________________________________

______________________________________________________________

Byddai'r Gorchymyn hwn yn ddilys o ____________________ yn unig ac, yn dilyn derbyn caniatâd gan Gyngor ________________ byddai cau'r ffordd ond yn digwydd ar y dyddiadau / amserau penodol canlynol:

______________________________________________________________

______________________________________________________________

Caiff y ffordd ei chau'n gyfan gwbl i draffig trwodd a chaiff y mannau cau eu stiwardio. Caniateir mynediad llawn i drigolion ond gofynnir iddynt yrru fel malwen dan oruchwyliaeth stiwardiaid o fewn yr ardal sydd wedi ei chau. Ni fydd angen symud cerbydau sydd wedi eu parcio o'r stryd, er efallai yr hoffech wneud hynny. Bydd rhieni'n llwyr gyfrifol am eu plant eu hunain a sicrheir mynediad i'r gwasanaethau brys bob amser ym mob rhan o'r stryd(oedd).

Dylech gyfeirio unrhyw sylwadau, ymholiadau neu wrthwynebiadau am y cynnig hwn ataf fi yn y lle cyntaf. Os na allaf leddfu eich pryderon, gallaf eich cyfeirio at ______________________________ yn y cyngor.

Diolch yn fawr ichi, ymlaen llaw, am eich cydweithrediad.

Yn gywir,

______________________________

# Cyfeiriadau

[1 a 2] Diwrnod Chwarae (2007) Playday: our streets too research.
Ar gael ar: www.playday.org.uk/resources/research/2007-research

[3] Tim Gill (2007) *No Fear: Growing up in a risk averse society*. Llundain: Calouste Gulbenkian Foundation.
Ar gael ar: https://rethinkingchildhood.com/no-fear

Ionawr 2019

© Playing Out a Chwarae Cymru

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, ar wahân i'r atodiadau, na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull gan unrhyw berson heb ganiatâd ysgrifenedig y cyhoeddwr.

ISBN: 978-0-9160226-1-4

Cyhoeddwyd gan Chwarae Cymru, Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd CF10 5FH

Elusen cofrestredig, rhif 1068926
Cwmni cyfyngedig drwy warant, rhif 3507258
Cofrestrwyd yng Nghymru